

















PARTNERIAETH CYDWASANAETHAU GIG CYMRU

# Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025-2028

*Sicrhau Gwerth, Arloesedd a Rhagoriaeth drwy Bartneriaeth*

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Shared Services Partnership

# Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

# Cynllun Tymor Canolig Integredig *2025-28*

## *Sicrhau Gwerth, Arloesedd a Rhagoriaeth drwy Bartneriaeth*

Os hoffech ragor o gopïau o'r ddogfen hon, gellir lawrlwytho fersiynau Saesneg a Chymraeg o'n gwefan.

Fel arall, os oes angen y ddogfen arnoch mewn fformat arall, gallwn roi crynodeb o'r ddogfen hon mewn ieithoedd gwahanol, mewn print mwy neu Braille.


02921 500500

NHS Wales Shared Services Partnership

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru,
4-5 Cwrt Charnwood,
Heol Billingsley,
Parc Nantgarw,
Caerdydd,,
CF15 7QZ

https://pcgc.gig.cymru/

shared.services@wales.nhs.uk

# Cynnwys


**Neges gan y Cadeirydd a'r Rheolwr Gyfarwyddwr** 4

**Crynodeb Gweithredol** 6

Sicrhau Gwerth, Arloesedd a Rhagoriaeth drwy Bartneriaeth 6

Egwyddorion Cyffredinol ar gyfer 2025-26 10

Map Strategaeth 11

Llwyddiannau, Arloesedd ac Astudiaethau Achos 12

Ffigurau Allweddol 13

**Dull ein Cynllun Tymor Canolig Integredig** 15

Monitro cynnydd yn erbyn ein cynllun 17

Cynllun Blwyddyn Un ar Dudalen 18

**Ein Hamcanion Strategol ar gyfer 2025-28** 19

Gwerth - Gwneud y mwyaf o fudd, effeithlonrwydd ac effaith gymdeithasol yr hyn a wnawn i'n partneriaid. 20

Ein Pobl - Cydweithio i fod y gorau y gallwn fod 30

Gwasanaethau - Rhoi hwb i arloesi a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn gyson 34

**Blaenoriaethau Gweinidogol** 39

**Swyddogaethau Cefnogi Craidd** 44

Blaenoriaethau Digidol 45

Cynaliadwyedd Ariannol 46

Pobl 47

Risg 48

**Atodiadau** 51


GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

## Allwedd y Ddyletswydd Ansawdd

Rydym wedi dangos ein hymrwymiad i'r Ddyletswydd Ansawdd drwy gydol ein Cynllun Tymor Canolig Integredig gan ddefnyddio logos y Safon Iechyd a Gofal perthnasol i nodi ffrydiau gwaith cysylltiedig.

- Arweinyddiaeth / Leadership
- Gweithlu / Workforce
- Diogel / Safe
- Amserol / Timely
- Diwylliant / Culture
- Gwybodaeth / Information
- Effeithiol / Effective
- Effeithlon / Efficient
- Gwella, dysgu ac ymchwil / Learning, improvement and research
- Ymagwedd systemau cyfan / Whole systems approach
- Teg / Equitable
- Person ganolog / Person centred



# Neges gan y Cadeirydd a'r Rheolwr Gyfarwyddwr

*Mae'n bleser gennym gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) ar gyfer 2025-2028. Mae'r cynllun hwn sy'n edrych i'r dyfodol yn gosod ein nodau strategol ar gyfer y tair blynedd nesaf, wedi'u gwreiddio ym mlaenoriaethau Gweinidogol a pholisi Llywodraeth Cymru ac wedi'u hategu gan ein gweledigaeth a'n gwerthoedd ein hunain. Mae'r cynllun hwn yn adlewyrchu rôl hanfodol PCGC o ran galluogi sefydliadau'r GIG i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n deg, yn effeithlon ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.*

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae PCGC wedi dangos ei allu i ysgogi gwelliannau sylweddol ledled Cymru, gan ymateb i heriau a chyfleoedd esblygol. Yn 2024-25, cyflawnodd ein cynllun y mwyafrif o'n hamcanion a chyflawnwyd sawl llwyddiant nodedig, pob un yn cyfrannu at drawsnewid GIG Cymru ac yn cefnogi amcanion gweinidogol allweddol.

Rhoddwyd y Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol ar waith, a ddaeth yn ofyniad cyfreithiol ym mis Medi 2024. Mae'r gwasanaeth statudol hwn yn hanfodol i wella llywodraethu clinigol, sicrhau tryloywder, a rhoi sicrwydd i deuluoedd fel rhan o'r broses ardystio marwolaeth.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn gweithgarwch recriwtio sy'n hanfodol i'r model gweithlu sydd ei angen i ddarparu gofal effeithiol ac amserol. Yn fwy diweddar rydym wedi arwain ar recriwtio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol medrus o dramor. Mae'r cyflawniad hwn wedi hybu gallu GIG Cymru i ddarparu gofal diogel ac effeithiol gan feithrin gweithlu amrywiol a chynhwysol. Rydym hefyd wedi gweld gostyngiad sylweddol yn yr amser y mae'n ei gymryd i gyflogi staff yn gyffredinol.

Rydym wedi parhau i geisio buddsoddiad yn ein gwasanaethau fferyllol. Drwy foderneiddio systemau, symleiddio cadwyni cyflenwi, a rhoi modelau gofal arloesol ar waith, ein nod yw sicrhau mynediad teg at feddyginiaethau critigol wrth gefnogi canlyniadau iechyd gwell ledled Cymru a bydd hwn yn ddarn allweddol o waith i ni wrth symud ymlaen.

Rydym yn falch o fod wedi gwneud cynnydd ystyrlon o ran hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws ein gweithrediadau ac o fewn system ehangach y GIG. Mae cyflawniadau allweddol yn cynnwys gweithredu mentrau Gwrth Hiliol Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn a gwneud cynnydd gyda'n camau gweithredu o dan ein strategaeth yr Iaith Gymraeg. Trwy fentrau wedi'u targedu ac ymdrechion cydweithredol, rydym wedi gweithio i chwalu rhwystrau, sicrhau mynediad teg i gyfleoedd a chreu amgylchedd lle gall pawb ffynnu.

Mae'r cyfeiriad strategol a amlinellir yn y CTCI hwn yn adeiladu ar yr holl waith da hwn, ond mae hefyd yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, ac yn cynnwys mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, cefnogi uchelgeisiau sero net GIG Cymru, ac adeiladu gweithlu gwydn a chynaliadwy. Rydym yr un mor ymrwymedig i gyflawni gweledigaeth 'Cymru Iachach' ar ei newydd wedd, sy'n pwysleisio atal, integreiddio, cydweithredu, a'r defnydd arloesol o dechnoleg i drawsnewid y ffordd y darperir iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r CTCI hwn yn cydnabod yr heriau a'r cyfleoedd sy'n datblygu'n gyflym sy'n wynebu'r GIG, sy'n cynnwys yr adferiad parhaus o'r pandemig COVID-19, pwysau poblogaeth sy'n heneiddio, a'r angen i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys ein gwaith ar ddatgarboneiddio a'r Economi Sylfaenol. Mae PCGC wedi ymrwymo i gefnogi GIG Cymru i lywio'r cymhlethdodau hyn wrth barhau i ganolbwyntio ar wella ansawdd gofal i bobl Cymru.

Mae ein cynllun ar gyfer 2025–2028 yn adeiladu ar y sylfaen gref a osodwyd yn y blynyddoedd diwethaf. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwerth, ysgogi arloesedd, a gwella effeithlonrwydd ein gwasanaethau a rennir. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo trawsnewid digidol mewn cyflogres a gofal sylfaenol, gwella systemau caffael a chadwyn gyflenwi, a chefnogi sefydliadau iechyd i gyflawni eu huchelgeisiau.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol canolbwyntio ar y cwsmer ym mhopeth a wnawn. Fel sefydliad cydwasanaethau, mae ein llwyddiant yn cael ei fesur gan y gwerth a'r cymorth a ddarparwn i'n partneriaid ar draws GIG Cymru. Mae hyn yn golygu ymgysylltu'n weithredol â'n cwsmeriaid, deall yr anghenion esblygol a darparu atebion sy'n eu galluogi i ganolbwyntio ar ddarparu gofal clinigol. Trwy feithrin perthynas gydweithredol gref a cheisio adborth yn barhaus, rydym yn sicrhau bod ein gwasanaethau yn parhau i fod yn ymatebol, yn effeithlon ac yn gweithio ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill. Yn ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae PCGC yn parhau i fod wedi ymrwymo'n ddwfn i gydweithio fel conglfaen ein hymagwedd. Drwy weithio mewn partneriaeth â Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Strategol, Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid eraill, gallwn wneud y mwyaf o'n heffaith gyfunol a sicrhau'r budd mwyaf i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Wrth inni gychwyn ar y cam nesaf hwn, rhaid inni ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at lwyddiant PCGC hyd yma. Trwy ymroddiad ac arbenigedd ein staff, partneriaid, a rhanddeiliaid y gallwn barhau i gefnogi GIG Cymru i gyflawni ei weledigaeth o ddyfodol iachach, tecach a mwy cynaliadwy i bawb.



**Neil Frow,**

*Rheolwr Gyfarwyddwr*



**Tracy Myhill,**

*Cadeirydd*
















# Crynodeb Gweithredol

## *Sicrhau Gwerth, Arloesedd a Rhagoriaeth drwy Bartneriaeth*

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol o ansawdd uchel i GIG Cymru, gan weithio gyda gwasanaethau cyhoeddus ehangach, a Llywodraeth Cymru yn eu plith.

Mae PCGC yn rhan annatod o GIG Cymru wrth gefnogi darparu gwasanaethau i staff a chleifion Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig yng Nghymru. Rydym hefyd yn darparu ystod o wasanaethau i ofal sylfaenol: Meddygfeydd, deintyddion, optegwyr a fferyllfeydd cymunedol a gwasanaethau i Gorff Llais y Dinesydd, Llais, trwy gytundeb lefel gwasanaeth.

## Ein Gwasanaethau

- Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd
- Cyfrifon Taladwy
- Gwasanaethau Atal Twyll Cymru
- Tîm Canolog e-Fusnes
- Datrysiadau Gweithlu Digidol
- Gwasanaethau Cyflogaeth
- e-Alluogi
- Yr Academi Gyllid (wedi'i lletya)
- Y Gwasanaeth Negesydd Iechyd
- Gwasanaethau'r Golchdy
- Cyflogwr Arweiniol ar gyfer hyfforddeion meddygol, deintyddol a fferylliaeth
- Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg
- Archwilydd Meddygol
- Gwasanaethau Gofal Sylfaenol
- Gwasanaethau Caffael a Chadwyni Cyflenwi
- Gwasanaethau Fferylliaeth
- Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
- Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol
- Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg
- Pobl a Datblygu Sefydliadol
- Y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol
- Aberthu Cyflog
- Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr
- Cronfa Risg Cymru
- Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru

Fel sefydliad a letyir, rydym yn gweithredu o dan fframwaith cyfreithiol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae ein Rheolwr Gyfarwyddwr, Neil Frow, yn atebol i sefydliadau eraill y GIG drwy Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau (Pwyllgor y Bartneriaeth) sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Sefydliadau'r GIG sy'n defnyddio ein gwasanaethau a Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor Partneriaeth yn cael ei gadeirio gan Tracy Myhill ac mae'n cyfarfod bob deufis. Mae gennym nifer o is-bwyllgorau a grwpiau ymgynghorol hefyd.

Yn sail i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) tair blynedd hwn mae cynlluniau cyflawni manylach ar gyfer pob isadran a maes gwasanaeth. Mae cynnydd yn erbyn ein cynllun yn cael ei adrodd yn chwarterol i Bwyllgor y Bartneriaeth a rhennir copi o'r adroddiad hwn gyda Llywodraeth Cymru hefyd. Cynhelir adolygiadau perfformiad chwarterol gyda phob maes gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Mae'r cyfarfodydd adolygu hyn yn gyfle i liniaru risgiau i gyflawni, addasu i alwadau newidiol a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg.

Yn ystod y flwyddyn, rydym hefyd yn cael o leiaf ddau gyfarfod craffu gyda Judith Paget, Prif Weithredwr GIG Cymru, ac aelodau o'r uwch dîm yn Llywodraeth Cymru. Pwrpas y cyfarfodydd hyn yw trafod perfformiad yn erbyn ein cynllun ac ystyried risgiau a chyfleoedd rydym wedi'u nodi.



## Siart Sefydliadol



Mae ein CTCI yn amlinellu Sicrhau Gwerth, Arloesedd a Rhagoriaeth drwy Bartneriaeth ar draws ein holl wasanaethau, gan ymgorffori gofynion polisi allweddol ar gyfer GIG Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymgorffori egwyddorion o Gymru Iachach a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, ac rydym hefyd yn cymryd rôl flaenllaw wrth ychwanegu dylanwad proffesiynol at fynd i’r afael â datgarboneiddio a’r newid yn yr hinsawdd yn y GIG yng Nghymru.

Fel sefydliad sy’n gweithio ar lefel genedlaethol a lleol ledled Cymru, rydym yn ymgysylltu’n rheolaidd ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) gyda’r nod o gysoni ein priod gynlluniau a nodi cyfleoedd am ymdrechion cydweithredol tuag at ein nodau cyffredin.

Rydym yn deall bod y ffocws uniongyrchol ar sefyllfa ariannol gyffredinol GIG Cymru ac, felly, mae ein cynlluniau wedi’u datblygu i sicrhau ein bod yn canolbwyntio’n fanwl ar gynaliadwyedd ariannol. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn parhau i gryfhau ein rhaglenni gwaith Cymru Gyfan i leihau gwastraff, lleihau amrywiadau a chynyddu effeithlonrwydd. Yn ogystal, rydym yn cydnabod y rhan hollbwysig yr ydym yn ei chwarae o fewn y rhaglen Gwerth a Chynaliadwyedd ar lefel genedlaethol.

Ar lefel leol, rydym yn canolbwyntio ar ein rhagdybiaethau cynllunio gweithlu ein hunain a gorbenion, gan gynnwys canlyniadau a chasglu effaith ein gwaith. Mae hyn yn helpu i flaenoriaethu adnoddau, gwneud penderfyniadau gwybodus a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i fabwysiadu arfer da. At hynny, mae ein hymrwymiad yn ymestyn i safoni a lleihau amrywiadau ar draws GIG Cymru yn y gwasanaethau a ddarparwn.

Mae troi heriau yn gyfleoedd yn cyd-fynd â chryfderau PCGC wrth gefnogi GIG Cymru. Rydym yn parhau i weithio ar gyfleoedd allweddol sy’n cynnwys:

- Cynyddu’r nifer sy’n manteisio ar swyddogaethau hunanwasanaeth, gyda chymorth gan ein defnyddwyr arbenigol.
- Lleihau amrywiadau diangen a symud tuag at fodelau gweithredu cyffredin a safoni.
- Rhoi nifer o fentrau polisi allweddol ar waith, yn eu plith Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Cynllun Gweithredu Amrywiaeth a Chynhwysiant a threfniadau Codi Llais heb Ofn, ochr yn ochr â’r Ddyletswydd Ansawdd.
- Mabwysiadu egwyddorion gweithio ystwyth i gyflogi pobl o bob rhan o Gymru yn eu cymuned.
- Sicrhau’r adenillion mwyaf posibl o fuddsoddiad mewn systemau a chymwysiadau digidol newydd.

Felly, rydym wedi cytuno â’n Pwyllgor partneriaeth ar yr egwyddorion cyffredinol canlynol ar gyfer y 12 mis nesaf, sy’n sail i Flwyddyn 1 y CTCI tair blynedd.









## Egwyddorion Cyffredinol ar gyfer 2025-26

### Gwneud y pethau sylfaenol yn dda

Mae PCGC wedi ymrwymo i ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer GIG Cymru, drwy ddarparu gwasanaethau dibynadwy i'n partneriaid. Mae ffocws ar ragoriaeth yn hanfodol i lwyddiant cyffredinol ein CTCI ac rydym yn deall yr effaith y mae hyn yn ei chael ar ddarparu gofal iechyd ledled Cymru. Yn 2024 cynhaliodd PCGC achrediad corfforaethol ar gyfer Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cwsmeriaid, gan amlygu ein hymroddiad parhaus i sicrhau bod rhagoriaeth wrth wraidd ein gwasanaethau.

### Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn hanfodol i greu gweithle teg, cyfiawn a pharchus. Drwy gofleidio'r meysydd hyn mae PCGC yn anelu at feithrin diwylliant lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu, a'u grymuso i gyfrannu o'u gorau. Mae hyn yn cynnwys cydnabod a gwerthfawrogi gwahaniaethau, herio rhagfarnau, a chreu arferion cynhwysol sydd o fudd i staff a defnyddwyr gwasanaeth. Trwy gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, mae PCGC yn ymdrechu i wella canlyniadau iechyd, gwella darpariaeth gwasanaethau, ac adeiladu sefydliad cryfach a mwy cydnerth.

### Cynaliadwyedd Ariannol

Rydym yn parhau i ymrwymo i gyllideb gytbwys, i gydymffurfio â'n dyletswydd i adennill costau a chynllun ail-fuddsoddi wedi'i dargedu ar gyfer y gwasanaethau hynny gan PCGC sy'n cefnogi Blaenoriaethau Gweinidogol yn uniongyrchol. O fewn ffrydiau gwaith Gwerth a Chynaliadwyedd, rydym yn arwain mewn tri maes: y gweithlu, meddyginiaethau a rhagnodi, a gwariant caffael a gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau. Yn ogystal, rydym yn asesu effaith amrywiadau diangen gan ddefnyddio arbenigedd ein Tîm Gwella Gwasanaethau i herio a gwella ein gwasanaethau.

### Llesiant Staff

Byddwn yn parhau i ddarparu cefnogaeth i'n holl staff i hybu llesiant corfforol, meddyliol ac ariannol. Byddwn yn cynnal y dull partneriaeth cryf yr ydym wedi bod yn ei adeiladu gyda'n hundebau llafur wrth inni lywio newid parhaus, gan sicrhau bod lleisiau ein staff nid yn unig yn cael eu clywed, ond eu bod yn cael sylw hefyd.

### Y Ddyletswydd Ansawdd

Mae hon yn flaenoriaeth allweddol i PCGC gan ei bod yn cyd-fynd â'n nod cyffredinol, sef Sicrhau Gwerth, Arloesedd a Rhagoriaeth drwy Bartneriaeth. Rydym yn deall y rôl hanfodol rydym yn ei chwarae wrth gefnogi agweddau amrywiol ar gyflenwi gofal iechyd, gan gynnwys caffael, fferylliaeth a gwasanaethau gweithlu. Mae ein haliniad â'r Ddyletswydd Ansawdd yn atgyfnerthu ein hymroddiad i wella ansawdd ac effeithiolrwydd cyffredinol ein gwasanaethau ledled Cymru.

***ydym wedi ymrwymo i wneud y mwyaf o gyfleoedd i wella ansawdd, lleihau gwastraff, a sicrhau cysondeb ar draws ein holl wasanaethau. Er bod yr hinsawdd economaidd bresennol yn cyflwyno heriau, rydym yn dal yn hyderus yng ngallu ein cynllun i ysgogi arloesedd a rhagoriaeth yn y gwasanaethau a ddarparwn.***

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau | Shared Services Partnership

## Map Strategaeth

### Sicrhau Gwerth, Arloesedd a Rhagoriaeth drwy Bartneriaeth

### Ein Gwerthoedd



**Gwrando a Dysgu**

Ystyried yn barhaus a gwella ansawdd ac effeithiolrwydd popeth a wnawn.



**Cymryd Cyfrifoldeb**

Am benderfyniadau dewr a thosturiol a gwneud i'r pethau iawn ddigwydd.



**Gweithio gyda'n gilydd**

Gyda chydweithwyr, cwsmeriaid a chyflenwyr.



**Arloesi**

Bod yn ddewr a chreadigol trwy welliant parhaus.

### Ein Nodau Strategol

#### *Ein Pobl*

Cydweithio i fod y gorau y gallwn fod



***Canlyniadau***

- Byddwn yn creu cyfleoedd i'n staff presennol a'n staff yn y dyfodol wneud y gorau o'u potensial a meithrin ein cyflenwad o dalent.
- Byddwn yn cynyddu amrywiaeth ein gweithlu ac yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn.
- Byddwn yn hyrwyddo llesiant corfforol, cymdeithasol, meddyliol ac ariannol ar draws yn sefydliad i gefnogi ein staff.
- Byddwn yn gwrando ar ein staff ac yn dysgu oddi wrthynt i gyd-gynhyrchu datrysiadau arloesol gyda'n partneriaid.

#### *Ein Gwasanaethau*

Ysgogi arloesedd a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn gyson



***Canlyniadau***

- yddwn yn galluogi ein timau sy'n delio â chwsmeriaid i gau'r mwyafrif o ymholiadau ar y cyswllt cyntaf, trwy wella cyflymder gwasanaeth, ansawdd, a phrofiad
- Byddwn yn hybu arloesedd, yn gosod y safon ar gyfer arferion da, ac yn gwella ein prosesau trwy awtomeiddio
- Byddwn yn meithrin partneriaethau ag arweinwyr diwydiant a sefydliadau academaidd ac yn ceisio statws Prifysgol
- Byddwn yn cael ein llywio gan ddata, gan rannu gwybodaeth â'n partneriaid i ddylanwadu ar y gwaith o wneud penderfyniadau ar draws GIG Cymru.

#### *Ein Gwerth*

Gwneud y mwyaf o fudd, effeithlonrwydd ac effaith gymdeithasol yr hyn a wnawn i'n partneriaid



***Canlyniadau***

- Byddwn yn gwneud penderfyniadau buddsoddi beiddgar sy'n ysgogi trawsnewid ac yn ychwanegu gwerth.
- Byddwn yn arwain y ffordd ac yn mynnu'r newidiadau sydd eu hangen gan eraill ymdrin â'r argyfwng newid hinsawdd a chyflawni targedau datgarboneiddio.
- Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon ac yn cael effaith gadarnhaol ar sail gymdeithasol a chynaliadwy
- Byddwn yn arwain cyfleoedd i gynyddu buddsoddiad yn yr economi sylfaenol ledled Cymru fel cyfran gynyddol o'n cadwyn gyflenwi



## Llwyddiannau, Arloesedd ac Astudiaethau Achos

- **Moderneiddio Recriwtio**
- **Profi aer yn ficrobiolegol mewn theatrau llawdriniaeth a awyrir yn gonfensiynol**
- **Cynllun Peirianneg Ôl-raddedig ar gyfer myfyrwyr Rhwydwaith 75**
- **BS EN 14065 yng Ngwasanaethau Golchdy Cymru Gyfan**
- **Gwreiddio’r Ddyletswydd Ansawdd ym mywyd beunyddiol PCGC – Rhannu’r lleisiau**
- **Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl**
- **System Electronig ar gyfer Cofnodi Archwiliadau**
- **Ymchwiliadau Gweithwyr - Rhoi pobl wrth wraidd ein proses**
- **Darparu Llwybrau Optometreg**
- **Ehangu Gofal Sylfaenol**
- **Gwerthusiad meddalwedd deallusrwydd artiffisial o Oed Esgyrn ar gyfer GIG Cymru**
- **Mae PCGC yn llofnodi cyfamod y lluoedd arfog yn ffurfiol**

## Ffigurau Allweddol

Gyda chyllideb o dros **£793m** a **6126 o bobl (gan gynnwys Un Cyflogwr Arweiniol)** yn 2024* roeddem yn gallu:



Cyflawni **£274m** mewn arbedion dylanwad proffesiynol



Anfon **15,962** o gynigion recriwtio amodol



Trin dros **19m** o eitemau i'w golchi



**250,000** o filltiroedd wedi'u teithio gan y Fflyd Cerbydau Trydan gan arbed **656kg co²**



Prosesu dros **57.5m** o bresgripsiynau



**4187** o feddyginiaethau parod a baratowyd ar gyfer gofal critigol a gwasanaethau canser



Proseswyd **1.42m** o anfonebau gwerth **£5.5b**



Arbed **£357k** wrth brynu a dosbarthu trwythau Nivolumab ar gyfer triniaeth canser trwy Unwaith i Gymr



Sganio **28,082,097** o ffurflenni presgripsiwn



**312** o nyrsys cofrestredig rhyngwladol wedi'u cofrestru



Prosesu dros **1.2m** o slipiau cyflog

---

### Ers mis Mawrth 2020 rydym wedi:



Cyflwyno mwy na **2.3b** eitem o offer amddiffynnol personol ar 22 Rhagfyr 2024

***ar 30 Tachwedd 2024**



## Diweddariad CTCI 2024-2025

Yn 2024-25 rydym yn gwneud cynnydd sylweddol yn erbyn pob un o'n cynlluniau. Er na allwn ddarparu darlun blwyddyn lawn, gallwn gadarnhau yn Chwarter 3 ein bod wedi cwblhau 13 o'r 144 o amcanion a osodwyd, ac mae 96 ar y trywydd iawn i'w cwblhau yn ystod y flwyddyn. Adroddwyd bod yr amcanion sy'n weddill wedi'u dirwyn i ben, wedi'u gohirio, oddi ar y trywydd iawn gyda chamau gweithredu i ddod â hwy yn ôl ar y trywydd iawn yn ystod y flwyddyn neu fod ffactorau allanol yn cynnwys oedi yn ystod y flwyddyn.

Er bod y blaenoriaethau Gweinidogol a nodwyd yn Fframwaith Cynllunio 2024-2027 wedi'u cyfeirio'n bennaf at Fyrddau Iechyd Lleol, gwnaethom ystyried sut roedd ein cynlluniau'n cyfrannu at y blaenoriaethau hyn ac yn eu cefnogi. Ym Mlwyddyn 1 ein cynllun, gwnaethom gynnydd sylweddol wrth weithio tuag at nifer o amcanion yr ydym yn parhau i weithio tuag atynt yn CTCI 2025-2028:

- Codi Llais heb Ofn
- Recriwtio Rhyngwladol
- Contract Offthalmig Cenedlaethol Cymru
- Gwasanaeth presgripsiynau electronig



# Dull ein Cynllun Tymor Canolig Integred

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

Mewn cydweithrediad â’n partneriaid trwy ein Pwyllgor Partneriaeth a sgyrsiau gydag IGDC ac AaGIC, rydym wedi datblygu cynlluniau CTCI blaengar ac ystwyth ar gyfer 2025-2028 i gefnogi GIG Cymru.




Mae ein hymagwedd wedi bod yn debyg i flynyddoedd blaenorol, gyda phob un o’n hisadrannau’n cydweithio i ddatblygu cynllun tair blynedd ar gyfer eu meysydd gwasanaeth priodol a’i alinio â’r map ffordd. Manylir ar y cynlluniau tair blynedd hyn yn adran dau o’n CTCI cyhoeddedig.




Mae ein cynllun PCGC blwyddyn un trosfwaol ar gyfer 2025-26 wedi’i grynhoi’n grynodeb Cynllun ar Dudalen, sydd i’w weld ar dudalen 18 o’r ddogfen hon. Mae’n pwysleisio elfennau hanfodol sy’n cyd-fynd ag amcanion strategol a Blaenoriaethau Gweinidogol. Bydd y cynllun hwn yn llywio cyflymder y newid ac yn gosod y capasiti ar gyfer cynlluniau blwyddyn dau a thri dilynol, a grynhoir yn Atodiad F.

Mae manylion atodol sy’n ategu cynnwys ein cynlluniau i’w gweld yn yr atodiadau:

- Atodiad A Ein Cynllun Digidol – Digidol fel galluogwr
- Atodiad B Ein Cynllun Ariannol
- Atodiad C Ein Cynllun Pobl – Dyma ein PCGC ni
- Atodiad D Mesurau Perfformiad Allweddol
- Atodiad E Mesurau Canlyniadau
- Atodiad F Cynlluniau Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3
- Atodiad G Y Ddyletswydd Ansawdd





## Monitro cynnydd yn erbyn ein cynllun

Mae gan PCGC broses Adolygu Perfformiad Chwarterol ar waith sy’n un o’r mecanweithiau rydym yn eu defnyddio i fonitro perfformiad ein sefydliad, yn unol â’n Fframwaith Rheoli Perfformiad.

Rydym yn darparu adroddiadau cynnydd ar ein CTCI i’r Pwyllgor Partneriaeth ac i Lywodraeth Cymru.

Defnyddir cyfarfodydd Adolygu Chwarterol gydag isadrannau i asesu ein cynnydd yn erbyn amcanion is-adrannol y CTCI, mesurau perfformiad, cofrestrau risg a pherfformiad y gweithlu a pherfformiad ariannol. Maent hefyd yn gyfle i adolygu cyflawniadau allweddol a dathlu llwyddiannau. Mae PCGC yn cynnal cyfarfodydd perfformiad sefydliadol un i un gyda phob Sefydliad Iechyd yn rheolaidd. Pwrpas y cyfarfodydd hyn yw trafod perfformiad presennol y gwasanaethau a ddarparwn a, hefyd, ymchwilio i fentrau cenedlaethol wrth ddeall heriau lleol lle y gall PCGC gynnig cymorth.

Mae ein cynlluniau CTCI is-adrannol yn parhau i gael eu monitro gan ddefnyddio offeryn olrhain byw, Microsoft Lists. Mae hyn yn darparu cysondeb yn ein dull o fonitro yn ogystal â gwireddu’r elw ar fuddsoddiad yn Microsoft Office 365. Mae’r wybodaeth hon yn cael ei bwydo i mewn i’n proses Adolygu Perfformiad Chwarterol sy’n cefnogi ein gallu i adrodd, addasu i ofynion newidiol a chymhwyso hyblygrwydd ar draws yr holl isadrannau.

Wrth ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer 2025-28, rydym wedi bod yn sefydlu mesurau perfformiad sy’n cefnogi’r canlyniadau yn ein Map Strategaeth. Mae’r mesurau canlyniadau wedi’u datblygu drwy’r Grŵp Perfformiad a Chanlyniadau (POG) a sesiynau gweithdy gydag Uwch Grŵp Arwain PCGC (SLG) a Phwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau (SSPC). O fis Mai 2024, ymgorfforodd PCGC fesurau canlyniadau yn ei strwythur adrodd ochr yn ochr â metrigau perfformiad presennol. Mae fformat yr adroddiad canlyniad yn cael ei fireinio trwy adborth parhaus ac ychwanegir mesurau ychwanegol pan gânt eu nodi.

Mae ein mesurau perfformiad yn cael eu hadolygu fel rhan o broses yr Adolygiad Chwarterol i sicrhau eu bod yn berthnasol o hyd, yn uchelgeisiol ond yn gyraeddadwy, ac yn fesuradwy ar gyfer unrhyw amcanion newydd a nodir. Fel rhan o’r broses hon, rydym hefyd yn nodi mesurau arweiniol ar gyfer pob un o’n hisadrannau a’n gwasanaethau i ddarparu crynodeb lefel uchel o’n perfformiad. Ceir crynodeb o’n Mesurau Perfformiad Allweddol cyfredol yn Atodiad D a’r Mesurau Canlyniad yn Atodiad E.

## Cynllun blwyddyn un ar dudalen

### Ein Gwasanaethau

Parhau â Rhaglenni Dysgu, gan ganolbwyntio ar Iechyd Menywod mewn gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.

Cefnogi trosglwyddo cynllun WIBBS i'r Corff Iawndal Gwaed Heintiedig.

Cefnogi ail-gaffael a gweithredu datrysiad HealthRoster ar Sail Cymru Gyfan.

Symud i gam cynnull y Datrysiad Trawsnewid Gweithlu.

Adolygu adroddiadau yn y Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol i fodloni gofynion cwsmeriaid ac aliniad â'r Ddyletswydd Ansawdd.

Ymgorffori'r rhaglen gwella recriwtio ymhellach i wella effeithlonrwydd gwasanaethau drwy arloesi ac awtomeiddio digidol.

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ymestyn Rhaglen Recriwtio Ryngwladol Cymru Gyfan.

Gwella'r defnydd o ddadansoddeg data yng ngwaith archwilio mewnol.

Datblygu Gwasanaethau Gwybodaeth Gweithlu Gofal Sylfaenol.

Cefnogi GIG Cymru i ddarparu gwasanaethau sy'n delio â chleifion trwy well parodrwydd ar gyfer argyfwng a gwydnwch.

### Ein Gwerth

Parhau i ddatblygu Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau.

Parhau i ddatblygu Sganio er Diogelwch fel rhan o raglen foderneiddio GIG Cymru.

Nodi datrysiadau i ysgogi awtomeiddio a chefnogi gwreiddio contract Offthalmig Cymru.

Arwain grŵp i ystyried caffael canolog o ynau amldro ar gyfer Byrddau Iechyd.

Sefydlu model gwasanaeth cadarn ar gyfer cyflwyno Rhaglenni brechu tymhorol yn genedlaethol.

Cyflawni cynllun gwaith Economi Sylfaenol Caffael y cytunwyd arno ar gyfer GIG Cymru, gyda cherrig milltir a'r hyn y gellir ei gyflawni yn cael eu datblygu gyda Llywodraeth Cymru.

Parhau i gyflawni camau gweithredu datgarboneiddio PCGC a chefnogi datgarboneiddio ehangach ledled Cymru.

Cynnal adolygiad llawn o wasanaethau cynnal a chadw Peirianneg i ddatblygu gwasanaethau'r golchdy mwy gwydn ac effeithlon.

Sefydlu Uned Radiofferylliaeth ar gyfer Dde-ddwyrain Cymru i gefnogi GIG Cymru.

Parhau â'r Model Logisteg Cenedlaethol ar gyfer GIG Cymru a chanolbwyntio ar resymoli a safoni.

### Ein pobl

Darparu canllawiau a chymorth diwygiedig i GIG Cymru mewn perthynas â Gweithio i Wella.

Datblygu gwasanaethau ac arbenigeddau o dan fodel Un Cyflogwr Arweiniol.

Adolygu ac adrodd ar yr opsiynau strategol hirdymor ar gyfer gwasanaethau'r System Rheolaeth Ariannol.

Uwchsgilio staff i baratoi ar gyfer mwy o ddulliau digidol
ac awtomeiddio yn y gweithle.

Lansio Strategaeth Iaith Gymraeg newydd i gefnogi 'Mwy Na Geiriau' a safonau'r Gymraeg.

Gwella ein hymrwymiad i gymuned y lluoedd arfog fel gweithle i gefnogi'r Lluoedd Arfog.

arhau i gyflwyno egwyddorion Dyletswydd Ansawdd a'u gwreiddio ar draws yr isadrannau.

Gweithredu Codi Llais heb Ofn gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Parhau i ddatblygu ein Cynnig Gwerth Gweithwyr.

Trwy Gynllun Gweithredu Diwylliant Cynhwysol PCGC, parhau i wreiddio Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru.



# Ein Hamcanion Strategol ar gyfer 2025-28

Mae ein hamcanion strategol yn sylfaen ar gyfer ein meysydd ffocws allweddol dros y tair blynedd nesaf. Rydym wedi integreiddio’r amcanion hyn yn ein cynlluniau adrannol er mwyn sicrhau aliniad â Blaenoriaethau Gweinidogol, rhaglen ehangach y llywodraeth, ac anghenion penodol ein cwsmeriaid a’n partneriaid.

Mae’r adran hon yn archwilio’r gweithgareddau allweddol a amlinellir yn ein cynlluniau ac yn dangos sut y maent yn cyfrannu at ein hamcanion a’n canlyniadau strategol. Drwy dynnu sylw at yr effaith gadarnhaol ar ein cwsmeriaid a’n partneriaid ar draws GIG Cymru, rydym yn cadarnhau ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth eithriadol.

## Gwerth

**wneud y mwyaf o fudd, effeithlonrwydd ac effaith gymdeithasol yr hyn a wnawn i’n partneriaid.**

Rydym wedi ymrwymo i wneud y mwyaf o werth, effeithlonrwydd ac effaith gymdeithasol ein gwasanaethau ar gyfer ein partneriaid. Drwy leihau gwastraff ac amrywiadau, ein nod yw gwneud y defnydd gorau o adnoddau, gan ryddhau capasiti ac amser i gefnogi gwell gofal i gleifion.

Gan gydnabod ein rôl hanfodol yn yr agenda Gwerth a Chynaliadwyedd, byddwn yn cryfhau ein rhaglenni Cymru Gyfan ac yn cydweithio â phartneriaid i sicrhau mwy o gysondeb.

Mae’r mentrau allweddol a ganlyn a amlinellir yn ein CTCI yn dangos ein hymrwymiad i’r amcanion hyn, gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn 2024-25.



Diwylliant
Culture

### Gwella gwasanaethau a gwireddu buddion a rhagoriaeth mewn gwasanaethau cwsmeriaid

**Beth fydd hyn yn ei olygu i’n cwsmeriaid?**

Gwasanaethau mwy effeithlon a gwerth am arian o bob rhan o’n his-adrannau.

Parhaodd y Swyddfa Rheoli Prosiectau a’r Tîm Gwella Gwasanaethau i gefnogi’r gwaith o wireddu buddion trwy brosiectau a mentrau gwella, sy’n cynnwys gosod targedau mesuradwy, monitro ac adrodd rheolaidd.

Yn ystod 2024-25, cefnogodd y Tîm Gwella Gwasanaethau ddatblygiad Cynllun Gwella Gwasanaethau cyntaf PCGC wedi’i anelu’n uniongyrchol at gefnogi dull y sefydliad o fynd i’r afael â grŵp trosfwaol Gwerth a Chynaliadwyedd Cymru Gyfan. Yn ogystal, cefnogodd y Swyddfa Rheoli Prosiectau ddatblygiad Grŵp Blaenoriaethu Cyfalaf PCGC sydd â’r nod o gefnogi ein hymagwedd at ddatblygu achosion busnes sydd hefyd yn cefnogi’r dull sefydliadol ehangach o wireddu buddion a buddsoddiad ar sail tystiolaeth.

Mae’r tîm yn parhau i gefnogi’r gwaith o gyflawni mentrau sefydliadau allweddol fel Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid a mentrau allweddol eraill gan gynnwys:

- Adolygiad o Wasanaethau’r Golchdy
- Tâl Amrywiol
- Blaenoriaethu buddsoddiad cyfalaf

**Yn 2025-26, byddwn yn:**

- Gwella ymhellach y gwasanaethau a’r galluoedd a ddarperir gan y Swyddfa Rheoli Prosiectau a’r Tîm Gwella Gwasanaethau trwy ddatblygu gwybodaeth a gallu.
- Cynyddu amlygrwydd ac argaeledd y Swyddfa Rheoli Prosiectau a Gwasanaethau Gwella Gwasanaethau.
- Cynyddu cymhwysiad y fframwaith Rheoli Newid gan weithio ar y cyd â phrosiectau a mentrau newid.



## Datgarboneiddio

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**

Rydym yn cefnogi ein partneriaid i leihau eu hallyriadau carbon a chyflawni eu Cynlluniau Gweithredu Datgarboneiddio lleol.

Datblygwyd Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru 2021-2030 (y 'Cynllun') i ysgogi gostyngiad mewn allyriadau carbon o weithrediadau GIG Cymru. Mae'r Cynllun yn nodi pum ffrwd waith: Rheoli Carbon; Cludiant a Chaffael; Cynllunio Adeiladau ac Ystadau, Defnydd Tir; ac Agwedd at ofal iechyd, gyda map ffordd manwl ar gyfer GIG Cymru. Mae gan y Cynllun 46 o fentrau sy'n helpu i hwyluso neu leihau allyriadau carbon yn uniongyrchol, a rennir ymhellach yn dasgau. Mae PCGC yn chwarae rhan hollbwysig wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun ac uchelgais Llywodraeth Cymru o gael sector cyhoeddus sero net erbyn 2030, ar lefel genedlaethol a lleol, drwy arwain ar 36 o dasgau yn y Cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys yr holl fentrau caffael, nifer o fentrau trafnidiaeth a sawl menter a ddosbarthwyd ar draws y ffrydiau gwaith sy'n weddill.

### *Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trafnidiaeth*

Mae PCGC yn cadeirio ac yn hwyluso Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trafnidiaeth Cymru Gyfan. Yn dilyn cyflwyno dogfen Ganllaw GIG Cymru ar gyfer seilwaith gwefru Cerbydau Trydan yn llwyddiannus yn 2023. Mae'r grŵp bellach yn canolbwyntio ar Fenter 18. Mewn cydweithrediad â Sefydliadau'r GIG, bydd y grŵp yn sefydlu system safonol o reoli cerbydau ar gyfer cerbydau dan berchnogaeth ac ar brydles. Bydd hyn yn galluogi sefydliadau i gynllunio, rheoli ac asesu perfformiad cerbydau.

### *Caffael PCGC*

Ochr yn ochr â blaenoriaethu effeithlonrwydd ariannol, mae'r gwasanaeth caffael yn parhau i weithio ar gyflawni Cynllun Cyflenwi Strategaeth Datgarboneiddio GIG Cymru o ran nodi a lleihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â gweithgarwch caffael.

Mae'r timau ledled Cymru yn parhau i fynd ati i dargedu'r caffaeliadau cenedlaethol sydd â'r potensial mwyaf i effeithio ar leihau'r ôl troed carbon naill ai drwy newid y ffynhonnell gweithgynhyrchu, y math o gynnyrch neu gymryd camau i leihau'r defnydd a'r galw.

Un nod allweddol i dím Caffael PCGC yw gwreiddio'r egwyddor a nodir yn yr Hierarchaeth Caffael Cynaliadwy ar draws GIG Cymru.

***Hierarchaeth Caffael Cynaliadwy***




**Ffynhonnell:** Wrap Cymru (2021)



### *Ôl Troed Carbon PCGC*

Mae holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru wedi datblygu Cynlluniau Gweithredu Datgarboneiddio unigol sy'n manylu ar eu hymateb i'r Cynllun a'r 46 menter. Mae PCGC wedi cael profiad sylweddol drwy gyflawni ei gynllun gweithredu blaenorol, ond mae risg o hyd o beidio â chyflawni targedau GIG Cymru. Ym mis Mawrth 2024, cafodd y Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio lleol ei adnewyddu'n llawn, gan ddarparu map ffordd uchelgeisiol y gellir ei gyflawni, gyda'r nod o ddatgarboneiddio ein cyfleusterau a'n gweithgareddau ein hunain.

Mae cyflawniadau ar gyfer y cyfnod blaenorol yn cynnwys:

- Treialu defnyddio paneli solar ffotofoltäig ar doeau cerbydau i ddarparu pŵer ategol wrth gefn a lleihau'r defnydd ar injan segur.
- Mae 90% o holl eiddo PCGC wedi'i drosi i ddefnyddio goleuadau LED.
- Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth e-ddysgu 'Cyflawni Sero Net' Lefel 1 wedi'i greu ac mae ar gael i'r holl staff ar blatfform Cofnodion Staff Electronig (ESR).
- Gweithredu tracio cerbydau. Mae dull tracio wedi'i osod ar holl fflyd Gadwyn Gyflenwi, Logisteg a Thrafnidiaeth PCGC ac mae dadansoddiad o amserlenni cerbydau arferol wedi helpu i lywio ble rydym yn cael y defnydd gorau posibl a lleoliad y fflyd Cerbydau Trydan.
- Mae ailgylchu gwastraff bwyd wedi'i gyflwyno yng nghyfleusterau PCGC lle cynhyrchir mwy na 5kg yr wythnos.

Y dull newydd o weithio fu datblygu cynlluniau sy'n cyd-fynd yn llawn â'r Cynllun Cenedlaethol ac sy'n gweithio o fewn y themâu canlynol:

| Thema | Enghraifft o Gam Gweithredu Datgarboneiddio PCGC |
|---|---|
| Arweinyddiaeth / Rheoli | Cyflwyno hyfforddiant wyneb yn wyneb Ymwybyddiaeth Carbon Lefel 2 i 80% o'r staff a nodwyd, i'w gyflawni rhwng 2024 a 2026. |
| Ynni ac adeiladau | Lleihau gofod swyddfa i adlewyrchu trefniadau gweithio 'ystwyth' modern, lleihau'r defnydd o garbon ar gyfer gwresogi a goleuo. |
| Gwasanaethau'r Golchdy | Cynnal adolygiad o Gydgrynhoi Llwybrau, wedi'i alinio â safleoedd lleol ar gyfer dosbarthu llieiniau a golch unwaith y bydd gwasanaethau'r golchdy wedi'u trosglwyddo'n llawn i PCGC. |
| Rheoli Gwastraff | Adolygu Ailgylchu Cadwyni Cyflenwi ar safleoedd Warws, trwy gyfuno gwastraff e.e. lleihau cardbord, plastigion. |
| Caffael, Logisteg a'r Gadwyn Gyflenwi | Bydd y dull o roi cyfrif am allyriadau ym maes caffael yn parhau i drosglwyddo i ddull 'seiliedig ar y farchnad'. |
| Trafnidiaeth a Theithio | Cynyddu'n fflyd a'n seilwaith Cerbydau Trydan. |
| Proses Glinigol | Ar ran Gwasanaethau Gofal Syflaenol, ail-ddylunio gwasanaethau (Cofnodion Meddygol ac ati) i optimeiddio'r dosbarthiad rhwng safleoedd Gofal Sylfaenol i'r Ganolfan Gwasanaethau Cymorth Gofal Sylfaenol agosaf. |
| Isadeiledd Gwyrdd / Bioamrywiaeth | Nodi a chefnogi unrhyw fentrau gwyrdd ac arloesiadau cynaliadwyedd ar draws PCGC. |



### *Addasu at newid hinsawdd*

Mae PCGC yn deall yr angen i GIG Cymru fod wedi'i addasu'n dda i newid yn yr hinsawdd, bod yn rhaid i gyflawni ar sero net a gostyngiadau allyriadau ddigwydd ochr yn ochr ag addasu i liniaru'r newidiadau yn yr hinsawdd sydd eisoes yn cael eu profi. Mae addasu i'r newidiadau presennol a'r newidiadau a ragwelir i'n hinsawdd, ar lefel genedlaethol a lleol, yn hanfodol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid cydnabod bod y camau a gymerir ar gyfer datgarboneiddio ac addasu yn gysylltiedig a bod iddynt gyd-fuddiannau posibl.

Gan ddefnyddio'r Canllawiau ar Ymaddasu yn yr Hinsawdd a'r Pecyn Cymorth ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024, bydd PCGC yn datblygu strategaeth ar gyfer Ymaddasu i gynnwys datblygu a gweithredu asesiadau risg a chyfleoedd iechyd a llesiant sy'n canolbwyntio ar yr hinsawdd. Drwy rannu ei ddull o addasu a defnyddio'r rhwydwaith sefydledig o gwsmeriaid a phartneriaid i hwyluso ymgysylltu, nod PCGC yw cefnogi sefydliadau ar draws GIG Cymru.

Mae camau gweithredu pellach yn cynnwys datblygu cynlluniau ymateb i'r hinsawdd, defnyddio'r gwersi a ddysgwyd hyd yma a sicrhau dull cydgysylltiedig rhwng lliniaru ac addasu, a thrwy hynny sicrhau bod ein llwybr i Sero Net yn cydnabod yn llawn yr angen i sicrhau gwydnwch iechyd a gofal cymdeithasol hirdymor, ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd o ran darparu gwasanaethau.



Effeithlon
Efficient

## Yr Economi Sylfaenol ac Effeithiau Llesiant

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**

Ein nod yw cynyddu gwydnwch yn y gadwyn gyflenwi a chynyddu'r gwariant a'r contractau a ddyfernir i Gyflenwyr o Gymru.

Mae PCGC yn deall bod yn rhaid i'n gwasanaethau caffael ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau a'r cleifion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae hyn yn golygu sicrhau bod cynhyrchion, gwasanaethau a darpariaethau yn cael eu cyrchu'n effeithlon ac am y gwerth gorau. Rydym wedi ymrwymo i gyrchu a darparu nwyddau a gwasanaethau gwerth uchel trwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol gyda'n cwsmeriaid, rhanddeiliaid a chyflenwyr. Yn wyneb heriau economaidd ac ariannol, ein nod yw cefnogi ail-fuddsoddi yn economi Cymru, fel yr amlinellir yn y "Cynllun Cymru Iachach".

Mae ein strategaeth gaffael yn adlewyrchu egwyddorion yr Economi Sylfaenol gan annog cadwyni cyflenwi lleol gwydn, drwy ymarferion cystadleuol teg, agored a thryloyw.

Mae Tîm Cynaliadwyedd y Gwasanaethau Caffael yn parhau i ganolbwyntio ar hyrwyddo'r ffrydiau gwaith allweddol a ganlyn:

- Darparu hyfforddiant a chymorth cynaliadwyedd ehangach i dimau caffael.
- Cynnal rhaglen allgymorth i ymgysylltu'n uniongyrchol â chyflenwyr o Gymru a chynnig cefnogaeth.
- Gwella data ac adrodd yn y Gwasanaethau Caffael.
- Hyrwyddo arloesedd ac arferion gorau.
- Integreiddio economi gylchol ehangach ac egwyddorion datgarboneiddio mewn prosesau caffael ar draws GIG Cymru.

Mae'r Tîm Cynaliadwyedd yn gweithio'n agos gyda thimau caffael i feithrin newid a chyfrannu at dwf yr Economi Sylfaenol. O ystyried y pwysau ariannol a wynebir gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau, mae angen cynyddol i roi mentrau arbed costau ar waith gan greu tensiwn rhwng cost a chynaliadwyedd ehangach. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r Gwasanaethau Caffael wedi rhannu ein rhaglen gontractau er mwyn nodi contractau cyfleoedd Economi Sylfaenol a Datgarboneiddio.

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus, rydym yn parhau i ddyfarnu contractau i gyflenwyr lleol, er budd economi Cymru. Rydym yn pennu pwysoliad o 15% yn ein meini prawf tendro i sicrhau bod ein contractau'n cyflawni effeithiau Llesiant ac Economi Sylfaenol ehangach, lle bo hynny'n berthnasol ac yn gymesur. Ymhellach, mae timau, gyda chyfleoedd contract a nodwyd, wedi parhau i ddatblygu strategaethau tendro cystadleuol arloesol i gynnal neu ehangu effaith eu contractau ar yr Economi Sylfaenol.

Mae GIG Cymru wedi ymrwymo i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (WBFGA) a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (SPPP). Dros y flwyddyn i ddod, byddwn yn gweithio'n agos gyda'n cyflenwyr i ehangu ein prosesau casglu data ac adrodd yn unol â gofynion y mesurau statudol sy'n gysylltiedig â SPPP, sydd i'w cwblhau yn 2025.

Bydd GIG Cymru yn parhau i fuddsoddi yn yr Economi Sylfaenol ac mae'r ffocws hwn wedi arwain at ddyfarnu contractau sylweddol i gyflenwyr o Gymru: gwerth £101 miliwn o wariant yn cael ei ddyfarnu i gontractwyr o Gymru yn 2023-24. Mae hyn, ynghyd â mentrau eraill, wedi arwain at dros £2.1 biliwn neu 43% o wariant GIG Cymru nad yw'n gysylltiedig â'r gyflogres yn cael ei gyfeirio at gyflenwyr o Gymru yn 2023-24.

Mewn ymateb i ymholiadau pellach ynghylch yr Economi Sylfaenol, mae PCGC wedi dechrau mesur perfformiad Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau unigol yn ogystal â'r gwariant sy'n gysylltiedig â rhanbarthau Cymru yn ogystal ag ôl troed daearyddol Byrddau Iechyd unigol.

**Gan edrych ymlaen at 2025-26 a thu hwnt, mae ein blaenoriaethau'n cynnwys:**

- **Adolygu Effeithiau Llesiant Cyflenwyr Presennol:** Byddwn yn ymgysylltu â'n cyflenwyr i asesu'r gwerth ychwanegol a ddaw yn sgîl eu contractau. Bydd y broses hon yn un barhaus wrth i ni adolygu ein cyflenwyr o safbwynt y Ddeddf SPPP a bydd hefyd yn cwmpasu metrigau cynaliadwyedd a datgarboneiddio ehangach.
- **Adolygiad Piblinell Contract:** Bydd cynllun newydd yn cael ei gyhoeddi, a fydd yn amlygu cyfleoedd yr Economi Sylfaenol a Datgarboneiddio a'r potensial ar gyfer Effeithiau Llesiant ychwanegol.
- **Dylanwadu ar brosesau tendro cystadleuol:** Byddwn yn ceisio manteisio ar ein gweithgareddau caffael i gyflawni'r canlyniadau gwerth gorau am arian, tra hefyd yn ceisio sicrhau canlyniadau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol cadarnhaol o'n prosesau caffael.






## Caffael

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Cefnogi ein cwsmeriaid i gyflawni arbedion cost ac arbed amser staff, gan alluogi ffocws ar ofal cleifion.

### *Arbedion ac Effeithlonrwydd Ariannol*

Mae Gwasanaethau Caffael PCGC yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau arbedion sy'n rhyddhau arian parod i Sefydliadau GIG Cymru, gydag ymrwymiad i gyflawni £42 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2024-25. Mae'r targed hwn yn cynnwys cynlluniau arbed lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a ddatblygwyd gan y timau ledled Cymru ar gyfer ystod o nwyddau a gwasanaethau. Yng nghyd-destun yr amgylchedd ariannol heriol iawn sy'n wynebu GIG Cymru a'r angen am hwyluso rhagor o gyfleoedd i wneud arbedion, mae'r gwasanaeth yn rhoi cyngor i Fwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd GIG Cymru gan nodi meysydd lle bydd angen cymorth gan yr Uwch Fwrdd Gweithredol a Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â ffafriaeth glinigol a datgloi potensial llawn yr arbedion ychwanegol sydd ar y gweill.

Mewn rhai meysydd gwariant meddygol a chlinigol nad yw'n gysylltiedig â'r gyflogres, mae amrywiadau yn y defnydd o frandiau gweithgynhyrchwyr ledled Cymru wedi creu amrywiadau mewn prisiau rhwng Byrddau Iechyd y mae angen eu herio a, lle bynnag y bo modd, cytuno ar ystod safonedig o gynhyrchion i'w defnyddio yn y dyfodol sy'n gwneud y mwyaf o botensial ymagwedd genedlaethol at gaffael.

Yn 2025-26, byddwn yn datblygu strategaeth arbedion ac adrodd cenedlaethol, lleol, ariannol ac anariannol y cytunwyd arni.

### *Newidiadau Deddfwriaethol*

Mae'r fframwaith deddfwriaethol y mae'r Gwasanaeth Caffael yn gweithredu o'i fewn hefyd yn newid yn sylweddol ym mis Chwefror 2025 gyda chyflwyniad Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 a Deddf Caffael 2023.

Bydd Deddf Caffael 2023 yn disodli'n gyfan gwbl y drefn caffael cyhoeddus bresennol, sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd, ar gyfer y DU yn dilyn Brexit. Nod y newidiadau yw cynyddu hyblygrwydd i brynwyr wrth ymgysylltu â'r farchnad a gwella tryloywder wrth wneud penderfyniadau. Bydd Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn cwmpasu rhai o'r meysydd yn Neddf Caffael 2023 ond yn canolbwyntio'n fwy penodol ar faterion sy'n ymwneud â gwerth cymdeithasol drwy bartneriaeth, caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol, gwaith teg a datblygu cynaliadwy. Bydd cyflwyno'r darnau hyn o ddeddfwriaeth yn gofyn am hyfforddiant sylweddol i ymarferwyr caffael, rhanddeiliaid a chyflenwyr yn y farchnad, ac ymwybyddiaeth sylweddol ganddynt. Mae modiwlau hyfforddi bellach wedi'u cwblhau gan holl staff caffael PCGC ynghyd â sesiynau plymio manwl manwl.





Ymagwedd systemau cyfan
Whole systems approach

## Moderneiddio Recriwtio

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Gwasanaeth recriwtio modern ac effeithlon sy'n bodloni anghenion ein cwsmeriaid.

### *Lleihau'r Amser ar gyfer Penodi*

Datblygwyd y Rhaglen Moderneiddio Recriwtio yn 2022, a thrwy hyn mae nifer o newidiadau a gwelliannau wedi'u gwneud i brosesau, addysg a thechnoleg.

Mae'r newidiadau allweddol i brosesau sydd wedi'u rhoi ar waith hyd yn hyn yn cynnwys:

- Lleihau nifer y gwiriadau cyn cyflogaeth sy'n orfodol cyn y dyddiad dechrau.
- Trefnu dyddiad cychwyn dros dro gyda'r ymgeisydd adeg cynnig y swydd ar lafar.
- Dim gofynion am eirda ar gyfer penodiadau mewnol yn y sefydliad.
- Gall timau recriwtio gymeradwyo geirdaon os nad ydynt yn cynnwys unrhyw wybodaeth am salwch neu ddisgyblu.
- Gweithredu meddalwedd Dilysu Hunaniaeth Ddigidol (Trust ID).
- Cefnogi cyflwyno'r system Iechyd Galwedigaethol newydd (OPAS G2) i'w gwblhau erbyn Rhagfyr 2023.

**Yn ystod 2024-25 rydym wedi bod yn gwneud y canlynol yn 2025-26a byddwn yn parhau i:**

- Adolygu cynnydd 'bod yn berchen ar y daith' ar draws Sefydliadau'r GIG a gwerthuso'r manteision.
- Archwilio syniadau trwy ymgynghori â sefydliadau eraill a rheolwyr recriwtio.
- Adolygu newidiadau a weithredwyd i sicrhau eu bod yn effeithiol.
- Defnyddio'r dechnoleg ddigidol sydd ar gael i gefnogi gostyngiadau pellach mewn 'amser igyflogi'.

### *Lleihau Amser i Benodi - Perchnogi'r Daith Recriwtio*

Er bod y newidiadau i'r broses a gweithrediad meddalwedd dilysu Hunaniaeth Ddigidol yn dangos canlyniadau cadarnhaol, mae gweithgarwch ychwanegol y gall Sefydliadau'r GIG a rheolwyr recriwtio ei wneud i gefnogi gostyngiad yn yr amser i benodi. Bydd hyn yn cynnwys cynllunio gweithgareddau recriwtio ymlaen llaw a symleiddio'r nifer o gymeradwyaethau swyddi gwag sydd eu hangen. Cytunwyd ar y gweithgareddau hyn ac mae gwaith wedi dechrau ledled Cymru. Gweithgaredd allweddol i sicrhau bod Amser i Benodi yn amser real, yw i sefydliadau lanhau cofnodion hŷn yn y system. Mae'r gwaith hwn wedi gweld gostyngiad o 25% o gofnodion sy'n hŷn na 91 diwrnod ers eu cynnig i 7%.

Mae PCGC wedi cael llwyddiant ym maes recriwtio meddygol. Yn flaenorol cawsom achrediad y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) i recriwtio i swyddi cymrodyr clinigol iau ac uwch, ac ym mis Hydref 2024, cawsom achrediad pellach i ychwanegu gradd 'Meddyg Arbenigol' at ein rhaglen nawdd GMC. Mae'r meddygon hyn yn cyfateb i'r radd Meddyg Arbenigol/Ymgynghorydd Locwm a chynigir contract iddynt wedi'i strwythuro i sicrhau amser i gyflawni mynediad i'r gofrestr arbenigol. Bydd y cynllun yn rhoi cymorth datblygiad proffesiynol i feddygon i gwblhau eu portffolio arbenigol uwch o dystiolaeth er mwyn eu galluogi i gael eu cynnwys ar y gofrestr arbenigol. Mae'r tîm hefyd wedi cael llwyddiant wrth recriwtio i is-arbenigeddau gan gynnwys Haematoleg, Radioleg, Gastroenteroleg, Oncoleg a Meddygaeth Frys.

Mae cynllun peilot i recriwtio nyrsys Iechyd Meddwl Cofrestredig cymwysedig ar gyfer GIG Cymru ar y gweill, gyda'r bwriad o ehangu ymhellach yn 2025-26 yn seiliedig ar werthusiad llwyddiannus o'r cynllun peilot.

Mae llwybrau i gyflogaeth ar gyfer Ymarferwyr Deintyddol hefyd yn parhau gyda mewnbwn gan AaGIC a'r Prif Swyddog Deintyddol.

Mae GIG Cymru bellach wedi recriwtio dros 1,300 o raddedigion nyrsio a meddygol rhyngwladol drwy Raglen Recriwtio Ryngwladol Cymru Gyfan, a chael effaith gadarnhaol ar y bwlch swyddi gwag a gwariant asiantaethau ar draws sefydliadau, ond yn bwysicach fyth, ar lefelau staffio diogel ar draws gwasanaethau.

Ymagwedd systemau cyfan
Whole systems approach

## Contract Offthalmig Cenedlaethol Cymru

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**

Gwell gwasanaethau gofal llygaid ar gael mewn lleoliad Gofal Sylfaenol.



Gyda'r trefniadau gweithredu wedi'u cwblhau a threfniadau contract newydd yn eu lle (Ebrill 2024) rydym yn parhau i adeiladu ar y cyfeiriad a amlinellwyd yn 'Cymru Iachach' a'r cynnydd a wnaed eisoes ers lansio'r cynllun Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid. Fel rhanddeiliaid allweddol ac arweinydd ar y rhaglen hon, mae PCGC yn parhau i sicrhau bod pob penderfyniad a wneir yn dilyn egwyddorion allweddol Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru - Ymagwedd y Dyfodol tuag at Wasanaethau Optometreg.

Rydym yn adolygu effaith y newid hwn yn barhaus, wrth i lwybrau gwasanaeth newydd gael eu comisiynu. Rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd i alluogi newid gweithredol i gefnogi'r trefniadau hyn. Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, y gwasanaeth a'r Byrddau Iechyd i gasglu data i gefnogi monitro, rheoli a thrin mwy o gleifion ym maes gofal sylfaenol. Dros amser bydd y gwaith casglu data hwn yn darparu tystiolaeth i gefnogi'r gostyngiad yn y galw am ofal eilaidd a gwell mynediad i gleifion.

### Rydym yn parhau i gefnogi'r newidiadau hyn:

- Gweithredu fel Partner Strategol i Lywodraeth Cymru gan arwain y gwaith o gyflwyno contract Offthalmig Cenedlaethol Cymru.
- Cefnogi'r gwaith o sefydlu trefniant bwrdd rheoli gwasanaeth newydd o fewn GIG Cymru.
- Adolygu cyflawniadau allweddol a chytuno ar gerrig milltir gyda'r bwrdd gwasanaeth sy'n cefnogi llwybrau newydd ymhellach.
- Adolygiad beirniadol o'r newidiadau a meithrin gwydnwch i ymgorffori'r gofynion fel rhan o'n trefniadau busnes fel arfer.

Effeithiol
Effective

## Gwasanaeth Rhagnodi Electronig

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**

Lleihau/dileu presgripsiynau papur gan ei wneud yn fwy cyfleus i staff a chleifion. Arbedion effeithlonrwydd mewn gwasanaethau dosbarthu, ad-dalu a gwybodaeth i gefnogi darpariaeth gwasanaeth cynaliadwy o fewn fferylliaeth gymunedol.

Bydd datblygu Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig (EPS) yng Nghymru a'i gyflwyno yn golygu nad yw'r system bellach yn dibynnu ar symud presgripsiynau papur rhwng y rhagnodwr a'r dosbarthwr, gyda'r cysylltiad dilynol â PCGC ar gyfer ad-daliadau. Fel rhan annatod o'r system ehangach hon, bydd PCGC yn gweithio'n agos gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gyflawni'r newidiadau hyn yn unol ag amserlen eu Rhaglen Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig.

Bydd cyflwyno'r system hon yn gwneud y broses rhagnodi a gweinyddu yn fwy diogel, yn fwy effeithlon ac yn gyfleus i gleifion a staff y GIG.

Rydym yn parhau i gefnogi'r rhaglen waith hon wrth i'r broses gyflwyno arfaethedig aeddfedu ac esblygu. Rydym yn adolygu effaith system a rheolau'n barhaus i sicrhau'r effeithlonrwydd a'r buddion mwyaf wrth i Fferyllfeydd a Phractisiau Meddygon Teulu allu defnyddio Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig.

Rydym yn parhau i adolygu gofynion adnoddau i sicrhau y gallwn gefnogi'r newid busnes a gofynion Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig yn y dyfodol.



Diwylliant
Culture

## Dyletswydd newydd i atal aflonyddu rhywiol

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Darparu cymorth ac addysg ar draws GIG Cymru ar y ddyletswydd newydd.



Daeth dyletswydd newydd i atal aflonyddu rhywiol yn y gweithle i rym ym mis Hydref 2024 ac mae ein Tîm Cyflogaeth Gyfreithiol a Risg yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws GIG Cymru ac mewn partneriaeth â staff i ddrafftio polisi atal aflonyddu.

### Beth rydym yn ei wneud ar draws GIG Cymru:

- Gweithio ar y cyd (trawsffiniol ac mewn partneriaeth) ar bolisi Cymru Gyfan i'w gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2024.
- Paratoi dogfennau cynsail i'w rhannu â phob sefydliad fel y gellir eu defnyddio i gynnwys asesiadau risg a rhestrau gwirio.
- Edrych ar sut y gallwn sicrhau bod y gwaith a wnawn yn cyd-fynd â ffrydiau gwaith eraill gan gynnwys Codi Llais heb Ofn fel y gallwn ddysgu gwersi a defnyddio arferion gorau.
- Rydym yn siarad amdano gyda staff ac yn ailadrodd negeseuon allweddol.
- Rydym yn uwchsgilio ein timau gweithlu/pobl i allu cynghori a chefnogi cydweithwyr sydd angen rheoli materion wrth iddynt godi.
- Rydym yn addysgu byrddau ar y ddyletswydd newydd a'r tebygolrwydd po fwyaf o waith a wnawn i dynnu sylw at y materion hyn, y mwyaf o bobl a ddaw i'r fei i adrodd am bryderon.

## Brechlynnau

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Model gwasanaeth cadarn ar gyfer darparu brechlynnau tymhorol.



Mae PCGC yn sefydlu model gwasanaeth cadarn ar gyfer darparu rhaglenni brechu tymhorol. Model cenedlaethol ar gyfer darparu brechlyn mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru.

Mae mecanwaith canolog Cymru gyfan ar gyfer caffael, storio a dosbarthu rhaglenni brechu tymhorol ac arferol yn cael ei archwilio a'i ddatblygu o fewn PCGC.

Ar hyn o bryd, mae darparwyr Gofal Sylfaenol yn caffael y brechlyn ffliw yn uniongyrchol gan gyflenwyr. Mae'r rhan fwyaf o frechlynnau'n cael eu harchebu yn yr hydref bob blwyddyn i'w dosbarthu a'u defnyddio yn yr hydref canlynol. Cwmpas y prosiect hwn yw adeiladu ar lwyddiant y broses archebu genedlaethol COVID-19 a sefydlwyd yn ystod y pandemig, ac archwilio'r manteision i wasanaeth canolog a ddarperir gan PCGC ar gyfer rheoli cyflenwad a dosbarthiad y brechlyn ffliw. Mae'r cynnig i PCGC gaffael, storio a dosbarthu'r brechlyn ffliw yn ganolog ar gyfer y rhaglen frechu sy'n dechrau yn hydref 2025 a rhaglenni brechu rhag y ffliw yn y dyfodol bellach wedi'i gytuno.

Mae'r prosiect yn gobeithio cyflawni buddion lluosog gan gynnwys arbedion cost posibl trwy drefn gyflenwi archeb unigol fwy ac agregedig, arbedion a gyflawnir trwy ddileu costau cyflenwi mewnol y cyflenwyr o fewn y gost brechu ar gyfer danfoniadau lluosog ledled Cymru, mwy o reolaeth stoc a gostyngiad mewn gwastraff a llai o ôl troed carbon trwy ddefnyddio pwyntiau cyflenwi canolog.




# Swyddogaethau Cefnogi Craidd

Bydd ein swyddogaethau cefnogi craidd yn ein galluogi i gyflawni ein blaenoriaethau a’r rhai y manylir arnynt, lle bo’n berthnasol i PCGC, yn Atodiad 2 i’r Cynllun Cynllunio. Fframwaith, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, drawsnewid digidol, datblygiadau gweithlu a chynaliadwyedd ariannol.

## Blaenoriaethau Digidol




Rydym yn deall ac yn cydnabod pwysigrwydd systemau digidol sy'n cefnogi ein cwsmeriaid, profiad defnyddwyr a staff, a sut maent yn gwella effeithlonrwydd a pherfformiad ar draws GIG Cymru.

Yn 2025-26 rydym wedi blaenoriaethu nifer o feysydd digidol a fydd yn cefnogi ein cwsmeriaid a'n partneriaid i hybu effeithlonrwydd ar draws GIG Cymru. Y blaenoriaethau hyn yw:

- Byddwn yn adolygu ein Strategaeth Ddigidol i sicrhau ei bod yn parhau i gyflawni ein nodau digidol a'i bod yn cyd-fynd â strategaethau, polisïau a phensaernïaeth genedlaethol.
- Er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer arloesi, yn sicrhau'r elw mwyaf posibl ar fuddsoddiad mewn systemau digidol newydd a sicrhau aliniad â safonau digidol, byddwn yn canolbwyntio ar y mentrau canlynol:
  - ↘ Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau: Dod o hyd i ddatrysiad digidol i gefnogi'r gwasanaeth gweithgynhyrchu meddyginiaethau.
  - ↘ Sganio er Diogelwch: Olrhain cynnyrch meddyginiaethol/dyfeisiau meddygol awtomataidd. Parhau i'w gyflwyno yn unol â Chynlluniau Byrddau Iechyd.
  - ↘ Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig: Integreiddio taliadau contractwyr a darparu cardiau clyfar a chymorth parhaus ar gyfer y broses gyflwyno genedlaethol.
  - ↘ Gweithredu Datrysiad Rheoli Achos Cyfreithiol (CMS) Civica iCase.
  - ↘ Datblygiad pellach o ddatrysiad Power Platform Cyngor Symud Staff.
  - ↘ Disodli'r Cofnod Staff Electronig mewn cydweithrediad ag Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG yn 2025.
- Er mwyn sicrhau bod systemau heb gymorth yn cael eu dirwyn i ben yn raddol a'n bod yn lleihau'r risgiau o ymestyn y defnydd o systemau etifeddol, byddwn yn canolbwyntio ar y mentrau canlynol:
  - ↘ System Gwybodaeth am y Gweithlu: Disodli System Adrodd Cenedlaethol y Gweithlu Cymru (Gofal Sylfaenol) a Datrysiadau Rhestri Cyflawnwyr yn 2025.
  - ↘ Disodli datrysiad rheoli prydles cenedlaethol ePIMS gan ddefnyddio Microsoft Power Platform i drosoli buddion Cytundeb Menter Microsoft Cymru Gyfan.
  - ↘ Disodli datrysiad etifeddol CMS Caffael.
- Adolygu a datblygu ymhellach ein cynllun datblygu parhaus seiberddiogelwch i sicrhau ei fod yn:
  - ↘ Yn parhau i fod yn gydnaws â chanlyniadau adroddiad y Fframwaith Asesu Seiber (CAF) ac yn darparu'r safon sylfaenol o leiaf.
  - ↘ Cyflawni gwelliannau wedi'u targedu yn ein cyflwr o ran seiberddiogelwch yn unol â'n fframwaith DPA seiberddiogelwch, sy'n cyd-fynd â CAF.
  - ↘ Yn cynnwys adnewyddu dyfeisiau defnyddiwr terfynol i sicrhau bod gennym ni ddyfeisiau a all weithredu Windows 11 ar ôl diwedd y gefnogaeth i Windows 10 ym mis Hydref 2025 i gynnal amgylchedd bwrdd gwaith diogel a all dderbyn y diweddariadau diogelwch diweddaraf.



## Cynaliadwyedd Ariannol

Yn yr amgylchedd ariannol heriol presennol, mae PCGC, yn yr un modd â sefydliadau eraill y GIG yng Nghymru, yn parhau i wynebu heriau sylweddol i alluogi newidiadau mawr i wasanaethau i gael eu cyflawni gyda'n hadnoddau ariannol presennol. Mae mwy yr ydym am allu ei gyflawni wrth sefydlu gwasanaethau newydd a llywio cyflymder arloesi gan gynnwys gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg yn ein gwasanaethau presennol, a thrwy hynny parhau i sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu darparu.

Mae'r cynllun ariannol ar gyfer 2025-2028 yn gytbwys. Fodd bynnag, mae nifer o risgiau sylweddol, a thybiaethau incwm ac arbedion wedi'u cynnwys yn ein cynllun. Yn y blynyddoedd diwethaf rydym wedi parhau i gynhyrchu arbedion ar sail achlysurol, ond mae'n anodd sicrhau twf a gwelliant cynaliadwy ac arbedion effeithlonrwydd flwyddyn ar ôl blwyddyn ar y sail hon.

Mae nifer o feysydd gwasanaeth y byddem am fuddsoddi ynddynt er mwyn sicrhau manteision ychwanegol i GIG Cymru a byddwn yn annhebygol o symud ymlaen heb gyllid buddsoddi rheolaidd drwy ein dyraniad. Rydym yn parhau i gynnal a gwella ein gafael a'n prosesau rheoli er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i sicrhau arbedion ac ailfuddsoddi ar draws y Sefydliad.

Bydd pwysau a blaenoriaethau a nodwyd o £12.528 miliwn ar gyfer 2025-26 (£9.157 miliwn ar gyfer 2024-25) yn cael eu talu o gynhyrchu incwm ychwanegol, arbedion sy'n rhyddhau arian parod, arbedion effeithlonrwydd ac incwm Llywodraeth Cymru.

| Pwysau | 2025/26 £m | 2026/27 £m | 2027/28 £m |
|---|---|---|---|
| Cyflogau | 7.023 | 0.300 | 0.300 |
| Gwariant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau | 0.646 | 0.100 | 0.100 |
| Twf o ran Galw/Gwasanaethau | 3.763 | 1.267 | 0.929 |
| Lleol/Gwasanaeth | 1.096 | 0.000 | 0.000 |
| **Cyfanswm y Pwysau** | **12.528** | **1.667** | **1.329** |
| **Ariennir Gan:** | | | |
| Cynhyrchu Incwm | 1.863 | 0.110 | 0.000 |
| Arbedion | 2.122 | 0.708 | 0.500 |
| Cyllid LlC | 7.646 | 0.849 | 0.829 |
| Buddsoddiad Cronfeydd Wrth Gefn | 0.887 | | |
| | **12.528** | **1.667** | **1.329** |
| **Pwysau Net** | **0.000** | **0.000** | **0.000** |

Mae pwysau allweddol o fewn ein cynllun yn ymwneud â chostau trosiannol rhaglenni mawr, ehangu gwasanaethau mewn amgylchedd o alw cynyddol uwchlaw lefelau a ariennir cyn COVID, pwysau costau chwyddiant parhaus a'r awydd i awtomeiddio a sicrhau gwydnwch ar draws y gwasanaethau a ddarparwn.

Wrth edrych ymlaen at 2025-26 rydym wedi nodi nifer o fentrau a phenderfyniadau buddsoddi lle bydd y camau a gymerwn yn helpu i wella mynediad i gleifion at wasanaethau a chefnogi sefydliadau eraill y GIG i gyflawni eu cynlluniau. Bydd buddsoddiad o'r fath yn gwella ansawdd ac effeithlonrwydd y gwasanaethau a ddarperir i staff eraill y GIG a'u sefydliadau. Dyma rai enghreifftiau:

- Agor yr uned Radiofferyllfa newydd a throsglwyddo i'r model gweithredu refeniw busnes fel arfer.
- Cyflwyno achosion busnes ar gyfer TraMS a dechrau gwaith yn y flwyddyn ariannol yn dibynnu ar gymeradwyo cyllid cyfalaf.
- Dechrau cymorth ar gyfer cyflwyno rhaglen y ffliw.
- Adolygu costau a gweithrediadau Gwasanaethau'r Golchdy er mwyn datblygu model gweithredu cyffredin ac ail-seilio ein mecanwaith codi tâl CLG.
- Cynnydd pellach ar waith paratoi ar draws GIG Cymru ar gyfer disodli ESR.
- Parhau a gwella ein rôl gyda pharodrwydd ar gyfer pandemig a sicrhau aliniad amcanion o ran cadw stoc a gofynion warysau gan sicrhau ein bod yn dysgu o ymchwiliad COVID ac yn cryfhau ein trefniadau gwydnwch.
- Rhaglenni trawsnewid Gofal Sylfaenol gan gynnwys cyflwyno'r gwasanaeth presgripsiynau electronig ymhellach ledled Cymru a chasglu'r buddion yn effeithiol a sicrhau cynllun pontio ar gyfer staff yr effeithir arnynt oherwydd y newidiadau.



**Incwm PCGC £ miliwn** (ac eithrio symudiad darpariaeth WRP )




Rhagwelir y bydd ffrydiau incwm yn £791 miliwn ar gyfer 2025-26 yn codi i £804.5 miliwn erbyn 2027-28.

Mae'r trefniadau Un Cyflogwr Arweiniol yn effeithio'n sylweddol ar ein ffrydiau incwm, gyda £310 miliwn o incwm o'n cyfanswm o £791 miliwn i'w briodoli o'r gwasanaeth hwn yn unig yn 2025-26. Rhagwelir twf incwm parhaus ar draws sawl maes Gwasanaeth hyd at 2027-28 gyda'r cynnydd sylweddol yn sgil cychwyn y gwasanaethau Radiofferylliaeth a TraMS.

Bydd setliadau hawliadau Cronfa Risg Cymru a ragwelir yn £145.491 miliwn yn 2025-26 yn gofyn am gyfraniad cyfran risg o £36.056 miliwn gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau.

Mae angen buddsoddiad cyfalaf o £83.3 miliwn ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd hyd at 2029-30. Mae buddsoddiadau cyfalaf mawr wedi'u cynnwys ar gyfer y prosiectau Radiofferylliaeth a TraMS yn ogystal â'n strategaeth disodli cerbydau a'n hagenda datgarboneiddio.



## Pobl




Rydym wedi ymrwymo i alluogi ein pobl i deimlo eu bod yn rhan o'r gwaith, i gysylltu â'n pwrpas ac i'w rannu; i deimlo eu bod wedi'u cyfoethogi, eu grymuso a'u hysbrydoli; a theimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi fel eu bod yn cael eu galluogi i wneud gwahaniaeth i bobl Cymru.

Ein nod yw gwneud PCGC yn lle gwych i weithio drwy gefnogi Iechyd a Llesiant ein gweithlu, ymwreiddio arweinyddiaeth dosturiol, ymrwymo i egwyddorion yr Economi Sylfaenol. Yn unol â hynny, mae ein hagenda ehangu mynediad hefyd yn canolbwyntio ar dyfu ein gweithlu yn y dyfodol o fewn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ledled Cymru yn unol â'r camau gweithredu newydd ar gyfer 'Cymru Iachach'.

Fel y cyfryw, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar y saith blaenoriaeth strategol ym maes Pobl a Datblygiad Sefydliadol:

- Dylunio Sefydliadol
- Organisational Development
- Adnoddau
- Dadansoddeg Pobl
- Cysylltiadau Cyflogeion
- Y Gymraeg
- Rhagoriaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol

Yn ystod 2024-25 fe wnaethom ganolbwyntio ar sawl rhaglen waith a sefydlwyd yn 2023-24 i sicrhau bod ein pobl yn gallu bod y gorau y gallant fod. Buom mewn partneriaeth â safleoedd hysbysebu ychwanegol a llwyfannau swyddi gan gynnwys Gyrfa Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau, cynghorau lleol, rhai prifysgolion a LinkedIn. Ers hynny mae Google Analytics wedi dangos cynnydd blynyddol o 836.44% (o 4,696 i 43,975) mewn ymweliadau safle â'n tudalen Gweithio i Ni. Fel rhan o'r dull hwn, derbyniodd PCGC dair gwaith yn fwy o ymgeiswyr, tair gwaith yn fwy o ymgeiswyr ar y rhestr fer ac ychydig llai na thair gwaith yn fwy o bobl yn cael eu cyfweld, a phob rôl wedi'i llenwi. O fewn pob un o'n blaenoriaethau strategol, rydym wedi cysoni ein gwaith arfaethedig â blaenoriaethau Gweinidogol a rhaglen ehangach Llywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn yn 2025-26.

## Cynhyrchiant y Gweithlu



Ym mis Ionawr 2024, yn dilyn rhyddhau Cynllun Gweithredu'r Gweithlu Cenedlaethol 2023, gofynnodd Llywodraeth Cymru i bob Bwrdd Iechyd roi 'Fframweithiau Rheoli Cymru Gyfan ar gyfer Capasiti Gweithlu Hyblyg' penodol ar waith. Yn dilyn hyn, rhoddodd PCGC fesurau ar waith a roddodd sicrwydd i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'n hymagwedd at Reoli Swyddi Gwag drwy gyflwyno prosesau Rheoli Swyddi Gwag a Chraffu'r Banc PCGC. Ychwanegwyd haen ychwanegol o graffu ym mis Chwefror 2024 i sicrhau dull gweithredu cyson ar draws y sefydliad a elwir yn 'Fframwaith Rheoli Asiantaethau PCGC'.

Mae gweithredu'r Fframwaith Rheoli Adnoddau yn darparu dull tri cham gyda'r mesurau rheoli canlynol:

1. **Panel Rheoli Swyddi**
   Adolygu'r holl hysbysebion sy'n cael eu rhoi ar TRAC.

→

2. **Panel Craffu'r Banc**
   Adolygu pob cais am Weithwyr Banc Dros Dro.

→

3. **Fframwaith Rheoli Asiantaethau**
   Adolygu pob cais am Weithwyr Asiantaeth.

Mae'r Fframwaith hwn wedi cefnogi PCGC i gael gwared ar yr holl 'asiantaethau oddi ar gontract' a chefnogi lleihau costau flwyddyn ar ôl blwyddyn. Wrth symud ymlaen, bydd y broses hon yn cefnogi PCGC i sicrhau gostyngiad parhaus a phellach mewn gwariant ar asiantaethau yn unol â'r camau a amlinellir yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru Fframwaith Tâl Amrywiol a Rheoli Asiantaethau.

I gyd-fynd â'r Fframwaith Rheoli Adnoddau, sefydlwyd gweithgor Tâl Amrywiol ym mis Medi 2024 i ymestyn yr adolygiad o ddefnydd o'r Banc ac Asiantaethau i oramser a gwelliannau. Gosododd y grŵp 18 o gamau gweithredu penodol gydag un yn canolbwyntio ar gysylltiadau â data salwch ac absenoldeb, sy'n arwain at fetrigau adrodd newydd a dangosfwrdd i gefnogi'r Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol i gael gwell dealltwriaeth o gamau absenoldeb a phroblemau sbardun ar draws y sefydliad.

Mae'r metrigau a'r dangosfwrdd yn cynnig cipolwg ar y sbardunau a gyrhaeddwyd yn sefydliadol ac yn cefnogi'r gwaith o nodi anomaleddau ac anghysondebau o ran dull gweithredu, ochr yn ochr â nodi'r meysydd hynny lle mae angen cymorth a hyfforddiant pellach. Er mwyn monitro gostyngiad mewn absenoldeb salwch mae metrig gwaelodlin yn cael ei ddatblygu, a bydd hyn yn galluogi PCGC i ddangos tystiolaeth o effaith hirdymor y darn hwn o waith ac adrodd i'r Uwch Grŵp Arwain yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.



## Risg



Mae risgiau a chyfleoedd sydd â’r potensial i effeithio ar y gwaith o gyflawni ein CTCI yn cael eu rheoli’n weithredol drwy adolygiad ym mhob un o gyfarfodydd misol yr Uwch Grŵp Arwain. Yn ogystal, mae cyfarfodydd deufisol Pwyllgor y Bartneriaeth a chyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Archwilio yn cael diweddariad ar ein risgiau corfforaethol allweddol. Mae ein Cofrestr Risg Corfforaethol wedi’i strwythuro i ddosbarthu pob risg yn erbyn Amcan Strategol perthnasol y CTCI. Caiff risgiau is-adrannol eu monitro trwy’r gyfres o Adolygiadau Chwarterol o’r Fframwaith Rheoli Perfformiad, sy’n rhoi’r cyfle i risgiau gael eu huwchgyfeirio i’r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ôl yr angen.

Ym mis Hydref 2024, achubwyd ar y cyfle yn Niwrnod Datblygu’r Hydref Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau i adolygu ein harchwaeth risg gydag aelodau’r Pwyllgor y Bartneriaeth a’r Uwch Grŵp Arwain. Trafodwyd cymhwyso’r lefel archwaeth risg bresennol ar gyfer pob math o risg (ariannol, rheoleiddiol, ansawdd, enw da a phobl). Roedd hon yn drafodaeth werthfawr oherwydd ei bod yn cysylltu’r proffiad o sut mae’r Datganiad yn cael ei gymhwyso’n ymarferol i’r dull yr hoffai Pwyllgor y Bartneriaeth ei weld yn cael ei ddefnyddio wrth symud ymlaen. Yn benodol, bu cryn drafod ar y cydbwysedd a’r rhyngweithio rhwng gwerth am arian ac ansawdd ac mae’n rhywbeth y bydd angen parhau i’w fonitro’n agos, ac i Bwyllgor y Bartneriaeth herio’i hun fel rhan o wneud penderfyniadau ac ystyriaethau yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, ac yn y rhan fwyaf o feysydd, roedd y lefelau archwaeth risg yn parhau i gael eu hystyried yn briodol. Fodd bynnag, heriodd aelodau Pwyllgor y Bartneriaeth i PCGC symud yn nes at ffin y lefel nesaf. Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu symud tuag at ‘chwilio’ o safiad ‘agored’ ar gyfer risg ariannol, rheoleiddiol, ansawdd ac enw da. Fodd bynnag, ym maes gweithlu teimlwyd y gallai PCGC fod hyd yn oed yn fwy beiddgar, gyda lefel archwaeth risg o ‘sylweddol’ yn nodi llawer o’r gwaith trawsnewid sydd wedi’i wneud a’r rôl arweiniol y mae PCGC yn ei chwarae’n genedlaethol ym maes y gyflogres, recriwtio ac Un Cyflogwr Arweiniol. Rydym yn ceisio arwain y ffordd o ran arloesi yn y gweithlu.

Gall PCGC gymryd rôl flaenllaw i ysgogi newid ac i nodi amrywiadau diangen a lleihau gwastraff drwy ddadansoddiad gwybodus o’r data sydd gennym ar y gwasanaethau a ddarparwn. Bydd hyn yn helpu i wneud gwasanaethau ar draws GIG Cymru yn fwy effeithlon a, thrwy hynny, helpu sefydliadau’r GIG i gyflawni eu cynlluniau. Er mwyn cyflawni’r nodau hyn a rhoi’r newid angenrheidiol ar waith yn gyflym, mae angen sicrhau ymgysylltiad Sefydliadau Iechyd eraill o fewn GIG Cymru a’u cefnogaeth.

### Ein Risgiau Corfforaethol Allweddol

Mae ein Risgiau Corfforaethol Allweddol wedi’u nodi yn ein Cofrestr Risg Gorfforaethol. Mae’r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn chwarae rhan ganolog wrth lunio ein Rhaglen Archwilio Mewnol. Mae ein harchwilwyr mewnol yn cyfeirio’n glir at ein Cofrestr Risg Gorfforaethol drwy gydol eu rhaglen waith ac yn sicrhau asesiad trylwyr ac aliniedig o’n tirwedd risg sefydliadol.

### Mae risgiau Corfforaethol allweddol ar gyfer 2025-26 yn cynnwys:

### Parhau i gyflawni ar gyfer GIG Cymru mewn hinsawdd ariannol heriol

Mae gweithredu o dan amodau economaidd anodd, yn enwedig diffyg cyfalaf, yn fygythiad sylweddol i ddarpariaeth gwasanaethau presennol a datblygiad gwasanaethau newydd. Mae gennym hanes da o reolaeth ariannol gadarn a’r gallu i gynhyrchu arbedion tra hefyd yn cyflawni rhagoriaeth mewn gwasanaethau ac addasu i newid gydag agwedd gadarnhaol a ‘gallu gwneud’.

I liniaru rhywfaint o’r risg rydym yn darparu adroddiadau cyllid rheolaidd i’r Uwch Grŵp Arwain, i’n Pwyllgor Partneriaeth a’n Pwyllgor Archwilio. Mae ein gwaith Gwerth a Chynaliadwyedd yn parhau i gefnogi’r rhaglenni cenedlaethol ac mae gennym raglen o wella gwasanaethau wedi’u targedu sydd â’r nod o sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o’r adnoddau sydd ar gael i ni sy’n cynnwys ffocws parhaus ar leihau tâl amrywiol, nifer o ddatblygiadau digidol a rhesymoli ein hystâd.

### *Cydbwyso blaenoriaethau cystadleuol mewn hinsawdd ariannol heriol*

Rydym yn parhau i hyrwyddo a chefnogi'r ddau nod o dyfu'r Economi Sylfaenol drwy gyrchu nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru lle bo modd a hyrwyddo'r Agenda Datgarboneiddio i helpu i gyflawni nod Llywodraeth Cymru o fod yn garbon-niwtral erbyn 2030.

Yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, mae'n anodd taro cydbwysedd rhwng cyrchu cynnyrch yn lleol a thrwy hynny ddarparu cyflogaeth i'r economi leol ar yr un pryd â sicrhau gwerth am arian a byw o fewn cyfyngiadau cyllidebol y GIG. Mae'r flaenoriaeth gystadleuol hon i wneud y peth iawn ar gyfer y tymor hwy a mantoli'r gyllideb yn y tymor byr hefyd yn berthnasol i'n dymuniad i wneud mwy o gynnydd yn erbyn ein cynllun gweithredu datgarboneiddio a chefnogi'r gwaith o gyflawni yn sefydliadau'r GIG.

Byddwn yn parhau i archwilio amrywiaeth o opsiynau i gyflawni blaenoriaethau Gweinidogol a sefydliadol a bod yn agored ac yn dryloyw yn ein trafodaethau ac yn ystyriol yn ein prosesau gwneud penderfyniadau.



### *Datblygu Gwasanaeth Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TrAMS)*

Bydd y gwasanaeth TrAMS yn darparu gwydnwch sydd fawr ei angen i gyflenwi cyffuriau critigol i gleifion canser ac yn sicrhau arbedion sylweddol posibl ar draws GIG Cymru gyfan ond mae angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol ymlaen llaw i ddatblygu'r gwasanaeth. Rydym wedi cymeradwyo cyllid i'n galluogi i sefydlu Uned Radiofferylliaeth ar ein safle IP5 a fydd yn cael ei symud ymlaen i 2025-26. Fodd bynnag, mae oedi wrth dderbyn caniatâd cynllunio a chymeradwyaeth achos busnes wedi achosi i'r prosiect symud ymlaen yn arafach nag a gynlluniwyd yn wreiddiol.

Rydym yn lliniaru risg drwy ein Bwrdd Rhaglen TrAMS, dull rheoli prosiect cadarn, cyflenwyr allanol a gweithredu grŵp gorchwyl a gorffen. Mae Grŵp y Prif Fferyllwyr yn ymgysylltu'n gryf ac yn cefnogi'r angen am weithredu prydlon a buddsoddiad pellach.

### *Rheoli capasiti staff a sicrhau Gwaith Teg i'n gweithlu*

Er ein bod wedi parhau i addasu i gwrdd â'r twf yn ein gwasanaethau, rydym yn rhagweld galw pellach gan ein cwsmeriaid, a fydd yn ei dro yn rhoi mwy o bwysau ar ein staff. Fel llawer o sefydliadau eraill y GIG, mae gennym rai heriau o ran recriwtio staff, yn enwedig i rolau proffesiynol mwy arbenigol.

Rydym wedi adnewyddu ein Cynnig Gwerth Gweithwyr ac wedi newid ein dull o recriwtio staff i ddod i weithio yn PCGC, gyda hysbysebion mwy arloesol a defnydd wedi'i dargedu mwy o gyfryngau cymdeithasol a rhwydweithiau proffesiynol. Rydym eisoes yn gweld bod hyn yn ennyn ystod ehangach o ymgeiswyr a nifer cynyddol o geisiadau cryf. Mae mwy o waith yn yr arfaeth ar gyfer 2025-26 fel y nodir yn Ein Cynllun Pobl. Rydym yn parhau i ddatblygu'r model Un Cyflogwr Arweiniol ac rydym wedi cynnal nifer o brosiectau recriwtio rhyngwladol llwyddiannus a bydd y dull a fabwysiadwyd yn parhau.

Mae ein Cynllun Pobl hefyd yn nodi nifer o gamau gweithredu sy'n targedu gwelliannau ym maes llesiant iechyd corfforol a meddyliol staff, amrywiaeth a chynhwysiant ac ymagwedd ragweithiol at Codi Llais heb Ofn a hyrwyddo Grŵp Cydweithredol Cymru dros Atal Trais i sicrhau bod ein staff yn cael eu trin â pharch bob amser a bod gennym ddull cadarn a chefnogol o ymdrin ag achosion lle nad ydynt.





# Atodiadau

Mae ein hamcanion strategol yn sylfaen ar gyfer ein meysydd ffocws allweddol dros y tair blynedd nesaf. Rydym wedi integreiddio'r amcanion hyn yn ein cynlluniau is-adrannol, gan sicrhau aliniad â Blaenoriaethau Gweinidogol, rhaglen ehangach y llywodraeth, ac anghenion penodol ein cwsmeriaid a'n partneriaid.

Mae'r adran hon yn archwilio'r gweithgareddau allweddol a amlinellir yn ein cynlluniau ac yn dangos sut y maent yn cyfrannu at ein hamcanion a'n canlyniadau strategol. Drwy dynnu sylw at yr effaith gadarnhaol ar ein cwsmeriaid a'n partneriaid ar draws GIG Cymru, rydym yn cadarnhau ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth eithriadol.



# Atodiad A - Ein Cynllun Digidol: Digidol fel galluogwr

Mae technoleg ddigidol yn chwarae rhan ganolog wrth gyflawni ein hamcanion corfforaethol a darparu gwerth i'n cwsmeriaid. Rydym yn canolbwyntio ar "ddigidol fel galluogwr", gan bwysleisio newid busnes fel ysgogwr ar gyfer datrysiadau digidol.

## Strategaeth Ddigidol a Model Gweithredu Targed

Yr hyn a gyflawnwyd gennym yn 2024-25:

Yn 2024-25 fe wnaethom barhau i gyflawni yn erbyn y nodau digidol o fewn tair thema allweddol a'n llwybr at Fodel Gweithredu Targed newydd fel y'i diffinnir gan ein Strategaeth Ddigidol.

### Nodau Digidol




### Themâu allweddol

**Aliniad Strategol**

- Nodau strategol PCGC
- Strategaeth Ddigidol i Gymru
- Strategaethau Allweddol

**Portffolio Datrysiadau Symleiddio**

- Gwella -> Prynu ->Adeiladu
- Lefel menter datrysiadau
- Alinio Prosesau

**Model Gweithredu Newydd**

- Rheoli Perthynas Busnes
- Partneriaid a chyflenwyr
- 'Lleoli' priodol

Fe wnaethom barhau â'n taith i Fodel Gweithredu Targed newydd trwy gyflawni prosiectau o fewn rhaglen waith sy'n perthyn yn fras i dri chategori:

**Sefydlogi** – gweithgareddau tymor byrrach i fynd i'r afael â bylchau neu risgiau yn y model presennol.

**Optimeiddio** – gweithgareddau tymor canolig wedi'u cynllunio i wireddu'r Model Gweithredu Targed a dylunio proses i gyflawni cylch parhaus o wella gwasanaethau.

**Cynaliadwyedd** – gweithgareddau tymor hwy wedi'u cynllunio i sicrhau bod gennym fodel wedi'i ddiffinio'n glir i gefnogi cylchoedd gwella parhaus a darparu set o ddatrysiadau digidol cadarn a diogel sydd wedi'u targedu.

## Model Gweithredu




### Roedd cyflawni Sefydlogi yn cynnwys:

- Sefydlu amgylchedd lletya cadarn hirdymor ar gyfer ein datrysiadau pwrpasol yn y Canolfannau Data Cenedlaethol.
- Cyflwyno proses fonitro Seiberddiogelwch i ddeall ein cyflwr o ran seiberddiogelwch yng nghyd-destun y Fframwaith Asesu Seiber.
- Recriwtio i fynd i'r afael â bylchau capasiti a llenwi'r bylchau o ran caffael.
- Ymestyn y datrysiad rheoli asedau digidol a chyfluniad.

### Roedd cyflawni optimeiddio yn cynnwys:

- Datblygu cynllun adnewyddu hirdymor dyfeisiau defnyddiwr terfynol.
- Rhoi'r broses porth digidol ar waith fel sail i'r strategaeth Gwella, Prynu, Adeiladu i symud tuag at ddarparu datrysiadau symlach ar lefel menter.
- Gweithgareddau peilot i sefydlu platfform lletya yn y cwmwl.
- Rhoi byrddau Dylunio, Newid a Rheoli Gwasanaethau newydd ar waith ymhellach i danategu'r broses porth digidol.
- Sefydlu proses ar gyfer gwella adnoddau Power Platform gyda'r M365 Centre of Excellence.

### Gweithgareddau galluogi ar gyfer newid busnes gyda datrysiadau digidol yn sylfaen iddynt:

- Cefnogaeth strategol ar gyfer gweithredu elfen PCGC o'r Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig.

- Datrysiadau seiber-sicrwydd Cymru Gyfan:
  - Health Roster
  - Costio Cymru Gyfan

- Cefnogaeth dylunio, sicrwydd a gweithredu ar gyfer dod o hyd i ddatrysiadau:
  - System Gwybodaeth am y Gweithlu
  - Rheoli Achosion Cyfreithiol
  - Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau
  - Fferylliaeth Gofal Cartref
  - Caffael CMS
  - Rheoli Prydlesi

### Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud yn ystod 2025-28

#### Sefydlogi:

- Ehangu'r amgylchedd cynnal yn y Canolfannau Data Cenedlaethol i ddarparu amgylchedd lletya cadarn hirdymor ar gyfer ein datrysiadau pwrpasol.
- Recriwtio i fynd i'r afael â bylchau capasiti a llenwi'r bylchau o ran caffael.

#### Optimeiddio:

- Gwella'r catalog gwasanaethau i ddarparu golwg gyfannol, seiliedig ar wasanaeth.
- Ehangu'r cytundebau gyda phartneriaid i ryddhau PCGC i gefnogi'r model partner busnes.
- Darparu adnoddau i'r cynllun a recriwtio i wreiddio cymorth ar gyfer arweinwyr gwasanaethau i weithredu newid busnes wedi'i ategu gan ddatrysiadau digidol drwy'r model partner busnes.
- Cyflwyno ac ymgorffori proses y porth digidol.
- Darparu mwy o hyblygrwydd yn yr amgylchedd lletya gan fanteisio i'r eithaf ar egwyddorion cwmwl yn gyntaf
- Datblygu ymhellach strategaeth a chynllun adnoddau Microsoft Power Platform er mwyn datblygu datrysiadau ar lefel sefydliad.

#### Cynaliadwyedd

- Ehangu cytundebau gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau menter a saernïaeth data.
- Datblygu gwasanaeth dadansoddeg data craidd gyda datrysiadau'n sail iddo i gefnogi gwasanaethau menter a phensaernïaeth data.
- Datblygu trefniadau partneriaeth i ddarparu datblygiad pwrpasol a chymorth i gymwysiadau etifeddol.
- Recriwtio i gefnogi newid busnes yn llawn a ddarperir trwy'r model partner busnes.
- Adolygu'r strategaeth rheoli dogfennau gan gynnwys digideiddio ac adalw cofnodion.

#### Gweithgareddau galluogi ar gyfer newid busnes gyda datrysiadau digidol yn sylfaen iddynt:

- Cefnogaeth strategol ar gyfer:
  - Gweithredu elfen PCGC y strategaeth ddigidol gofal llygaid ym maes gofal sylfaenol.
  - Disodli'r Cofnod Staff Electronig.

- Pecynnau seiber-sicrwydd Cymru gyfan ar gyfer:
  - Mudo Oracle FMS i'r cwmwl.
  - Disodli'r Cofnod Staff Electronig.

- Cefnogaeth dylunio, gweithredu a sicrwydd ar gyfer dod o hyd i ddatrysiadau:
  - Datrysiadau digidol TrAMS a phontio'r gweithlu.
  - Strategaeth ystadau a gweithio ystwyth.
  - Disodli dull cofrestru cleifion gofal sylfaenol NHAIS.
  - Datrysiad Rheoli Achosion y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg.

#### Model Darparu Atebion



## Ffocws ar y cwsmer a rhagoriaeth weithredol

Byddwn yn grymuso ein cwsmeriaid trwy alluoedd hunanwasanaeth a nifer o sianeli.

Byddwn yn rhoi atebion diogel sy’n canolbwyntio ar y cwsmer ar waith, yn defnyddio data ac yn darparu mewnwelediad / mynediad amserol at wybodaeth, lle a phan fo angen.

Byddwn yn gwella rhagoriaeth weithredol trwy weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu systemau a gwasanaethau effeithlon, symlach a chost-effeithiol.

## Partneriaethau a chydweithio

Byddwn yn datblygu ar ein gwaith partneriaeth a chydweithredol gyda Llywodraeth Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru a Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau GIG Cymru. Gweithio gyda phartneriaid Iechyd a Gofal (gan gynnwys gofal cymdeithasol), y sector cyhoeddus ehangach a phartneriaid diwydiant. Byddwn yn manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd i gyd-greu gwerth a harneisio manteision technolegau newydd a datrysiadau digidol ac yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru drwy ddefnydd ehangach o’r Adnodd Data Cenedlaethol.

## Gwerth am Arian ac Adenillion o Fuddsoddi

Ar ôl cyflawni blociau adeiladu sylfaenol Microsoft 365, byddwn yn meithrin gallu sefydliadol i harneisio manteision pellach gan gynnwys defnyddio Power Platform, Dynamics 365 a SharePoint Online.

Wrth i PCGC barhau i fabwysiadu gwasanaethau digidol newydd, bydd angen datblygu arbenigedd mewnol, mewn partneriaeth ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru, i leihau costau ymgynghori yn y tymor hwy.




## Datblygu staff a chynllunio olyniaeth

Byddwn yn uwchsgilio ein staff i gefnogi technolegau digidol newydd a meithrin gallu i harneisio manteision technolegau newydd ar draws PCGC.

Byddwn yn Byddwn yn ehangu’r defnydd o’r Microsoft Power Platform trwy rwydwaith o wneuthurwyr a arweinir gan adnodd canolog, sy’n gysylltiedig ag arbenigedd Microsoft 365 Centre of Excellence a Gofal Digidol Cymru.

## Awtomeiddio Prosesau

Mae egwyddorion Awtomeiddio Prosesau Robotaidd (RPA) yn ymwneud â defnyddio offer addas a all atgynhyrchu ac awtomeiddio tasgau dynol ailadroddadwy a gyflawnir ar systemau i gynorthwyo staff, gan eu rhyddhau i ymgymryd â dyletswyddau gyda mwy o werth ychwanegol. Rydym wedi buddsoddi mewn Awtomeiddio Prosesau Robotaidd ers sawl blwyddyn ac yn parhau i wneud. Byddwn yn ailedrych ar ein strategaeth awtomeiddio prosesau i gwmpasu’r defnydd o offer awtomeiddio prosesau robotig pwrpasol wrth fanteisio’n briodol ar alluoedd Microsoft Power Platform.

Mae’r prosesau a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- DPA Gwasanaeth Adrodd Ad-daliadau Ocsigen
- Dadansoddiad CTCI
- Adroddiad ar y Rhaglen Datgarboneiddio
- Rhyddhau anfonebau sydd wedi’u hoedi
- Rheoli Swyddi Gwag Trac
- Terfyniadau Cyngor Symud Staff
- Cyngor Symud Staff Dechreuwr Newydd Cyflogi
- Mudo Oracle Cloud - diweddariadau proses
- Cau Cais Ymgeisydd Trac
- Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Taliadau – aseiniad swp
- Anfon anfonebau yn awtomatig
- Prosesu Anfoneb Electronig

Y cynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf yw parhau i gefnogi prosesau byw ac i nodi cyfleoedd i awtomeiddio a defnyddio datrysiadau yn y meysydd a ganlyn:

- Ffeiliau Cyflogaeth Trac
- Adroddiadau Gweithlu Misol
- Derbyniadau heb eu talu Cyfrifon Taladwy
- Rheoli Trwyddedi Meddalwedd
- Cyngor Symud Staff
- Lawrlwythiadau Pensiynau’r GIG
- Setiau Aseiniadau’r Gyflogres



## Seibergwydnwch

Mae bygythiad ymosodiadau seiberddiogelwch yn cael ei gydnabod fel risg gorfforaethol allweddol yr ydym yn ei rheoli'n weithredol. Rydym yn parhau i fod yn wyliadwrus ac yn parhau i adolygu a gwella ein seilwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gadarn yng nghyd-destun y bygythiadau a wynebwn, sy'n newid yn barhaus.

Rydym wedi adnewyddu ein hymateb i adroddiad diweddaraf y Fframwaith Asesu Seiber (CAF) ac wedi datblygu set o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio i danategu fframwaith DPA sy'n mesur cyflwr o ran seiberddiogelwch mewn pedwar maes:

- **Llywodraethu:** Sefydlu a monitrostrategaeth rheoli risg, disgwyliadau a pholisi seiberddiogelwch y sefydliad.
- **Nodi:** Rheoli asedau digidol y sefydliad a nodi lefel y risg seiberddiogelwch y maent yn ei chyflwyno.
- **Canfod:** Darganfod a dadansoddi ymosodiadau a chyfaddawdau seiberddiogelwch posibl.
- **Ymateb:** Rheoli, lliniaru ac adfer o effaith digwyddiadau seiber.




# Atodiad B - Ein Cynllun Ariannol

Mae'r cynllun ariannol yn nodi ein strategaeth ariannol, sy'n galluogi ac yn cyd-fynd â chyflawni'r strategaeth datblygu gwasanaeth a amlinellir yn y CTCI hwn. Yn yr amgylchedd ariannol heriol presennol, mae PCGC, yn yr un modd â GIG Cymru, yn parhau i wynebu heriau sylweddol i alluogi newidiadau mawr i wasanaethau i gael eu cyflawni o fewn ein hadnoddau ariannol presennol. Mae mwy yr ydym am allu ei gyflawni wrth sefydlu gwasanaethau newydd a llywio cyflymder arloesi gan gynnwys gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg yn ein gwasanaethau presennol, a thrwy hynny parhau i sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu darparu.

Mae'r cynllun ariannol ar gyfer 2025-2028 yn gytbwys. Fodd bynnag, mae nifer o risgiau sylweddol, a thybiaethau incwm ac arbedion wedi'u cynnwys yn ein cynllun. Yn y blynyddoedd diwethaf rydym wedi parhau i gynhyrchu arbedion ar sail achlysurol, ond mae'n anodd sicrhau twf a gwelliant cynaliadwy ac arbedion effeithlonrwydd flwyddyn ar ôl blwyddyn ar y sail hon. Mae nifer o feysydd gwasanaeth y byddem am fuddsoddi ynddynt er mwyn sicrhau manteision ychwanegol i GIG Cymru a byddwn yn annhebygol o symud ymlaen heb gyllid buddsoddi rheolaidd drwy ein dyraniad. Rydym yn parhau i weithredu ac yn ceisio gwella ein prosesau gafael a rheoli ymhellach er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd arbedion ac ail-fuddsoddi ar draws y Sefydliad.

**Mae'r cynllun ariannol yn cynnwys ein tri maes allweddol:**




## Cyllidebau Refeniw Craidd PCGC

Gwelodd 2024-25 nifer o ddatblygiadau a newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir. Mae PCGC wedi galluogi newid sylweddol trwy ail-fuddsoddi cyllid arfaethedig o fewn meysydd blaenoriaeth gwasanaethau i ddarparu mwy o gapasiti i gefnogi, galluogi a chyflymu'r broses o gyflawni newid ar draws GIG Cymru gan gynnwys:

- Symud i gynhyrchu golchdai ar bedwar safle o 1 Ebrill 2024 ar ôl cau golchdy Glangwili a'r buddsoddiad cyfalaf parhaus i alluogi hyn.
- Cytundeb i symud ymlaen â datblygiad cyflym o wasanaeth Radiofferylliaeth yn IP5.
- Cyflwyno Achos Busnes Amlinellol (OBC) i ddarparu TrAMS yn Rhanbarth De-ddwyrain Cymru
- Cynnydd parhaus yn y galw a'r nifer o drafodion yn y gwasanaethau Cyflogres, Recriwtio a Chyfrifon Taladwy o'u cymharu â llinellau sylfaen gweithgarwch a ariennir cyn COVID.
- Gweithredu Cam 1 ein strategaeth safleoedd.
- Gweithredu Cam 1 ein rhaglen moderneiddio'r gyflogres.
- Symud i ddarparu Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol statudol i Gymru o 9 Medi 2024.
- Sefydlu cyflenwadau meddyginiaethau wrth gefn fel rhan o drefniadau gwydnwch pandemig.

Wrth edrych ymlaen, bydd 2025-26 yn gweld datblygiadau pellach mewn sawl maes gan gynnwys:

- Agor yr uned Radiofferyllfa newydd a throsglwyddo i'r model gweithredu refeniw busnesfel arfer.
- Cyflwyno achosion busnes ar gyfer TraMS a dechrau gwaith yn y flwyddyn ariannol yn dibynnu ar gymeradwyo cyllid cyfalaf.
- Dechrau cymorth ar gyfer cyflwyno rhaglen y ffliw.
- Adolygu costau a gweithrediadau Gwasanaethau'r Golchdy er mwyn datblygu model gweithredu cyffredin ac ail-seilio ein mecanwaith codi tâl CLG.
- Cynnydd pellach ar waith paratoi ar draws GIG Cymru ar gyfer disodli ESR.
- Gweithredu'r argymhellion o adolygiad logisteg y gadwyn gyflenwi a gynhaliwyd yn 2024-25.
- Gwaith paratoi ar gyfer disodli Oracle Financials gydag asesiad effaith o drosglwyddo i blatfformau gweithredu gwahanol.
- Yr her barhaus i gynnal momentwm yn erbyn ein Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio a chael gafael ar y cyllid cyfalaf sydd ar gael i sicrhau y gallwn ddatblygu ein huchelgeisiau a sicrhau ein bod yn cyd-fynd â'n strategaeth disodli cerbydau a'n cynllun seilwaith gwefru cerbydau trydan.
- Cam 2 ein strategaeth safleoedd yn dilyn penodi i'n rôl Pennaeth Ystadau a Chyfleusterau newydd.
- Parhau a gwella ein rôl gyda pharodrwydd ar gyfer pandemig a sicrhau aliniad amcanion o ran cadw stoc a gofynion warysau a sicrhau ein bod yn dysgu o ymchwiliad COVID ac yn cryfhau ein trefniadau gwydnwch.
- Hyrwyddo effaith gadarnhaol gwaith PCGC i arddangos arferion da a'n cynorthwyo i recriwtio a chadw staff yn dilyn penodi ein Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu newydd.
- Cam 2 rhaglen moderneiddio'r gyflogres.
- Cynnydd pellach ar ein taith Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid a meincnodi ein gwasanaethau gyda darparwyr gwasanaethau a rennir eraill lle bo hynny'n ymarferol.
- Rhaglenni trawsnewid Gofal Sylfaenol gan gynnwys cyflwyno'r gwasanaeth rhagnodi electronig ymhellach ledled Cymru a chasglu'r buddion yn effeithiol a sicrhau cynllun pontio ar gyfer staff yr effeithir arnynt oherwydd y newidiadau.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gofyniad incwm refeniw ar gyfer 2025-28 er mwyn galluogi'r blaenoriaethau a nodwyd yng nghynlluniau darparu'r Gwasanaethau.

| Sefyllfa Refeniw PCGC | 2025/26 £m | 2026/27 £m | 2027/28 £m |
|---|---|---|---|
| **Dyraniad LIC** | | | |
| Gwasanaethau Craidd PCGC | 90.217 | 90.217 | 90.217 |
| Gwasanaeth Cronfa Risg Cymru (gan gynnwys Gwneud Iawn) | 109.435 | 109.435 | 109.435 |
| **Cyfanswm y Dyraniad** | **199.652** | **199.652** | **199.652** |
| Incwm Craidd Arall o Anfonebu | 555.292 | 564.113 | 565.706 |
| Incwm Cytundeb Rhannu Risg Cronfa Risg Cymru | 36.056 | 37.726 | 39.169 |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **791.000** | **801.491** | **804.527** |



## Gwasanaethau Craidd PCGC

Mae'r maes hwn yn ymgorffori'r cyllidebau incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â chynnal y prif wasanaethau a ddarparwn. Derbynnir elfen o'r incwm hwn drwy frigdoriad ein dyraniad cyllid gyda Llywodraeth Cymru, gyda'r gweddill yn cael ei gynhyrchu drwy anfonebu a nodir yn y tabl isod.

| Sefyllfa Refeniw Graidd PCGC | 25/26 £m | 26/27 £m | 27/28 £m |
|---|---|---|---|
| **Dyraniad LIC** | 199.652 | 199.652 | 199.652 |
| **Incwm Craidd Arall o Anfonebu** | | | |
| Un Cyflogwr Arweiniol | 310.066 | 310.066 | 310.066 |
| Ad-daliadau Storfeydd | 57.092 | 57.092 | 57.092 |
| Y Cynllun Ad-daliad Fferyllol | 55.100 | 55.100 | 55.100 |
| Gwasanaethau Golchdy Cymru Gyfan | 12.410 | 12.410 | 12.410 |
| Ad-daliadau Systemau Cymru Gyfan | 8.821 | 8.982 | 9.147 |
| Y Gwasanaeth Negesydd Iechyd | 8.597 | 8.597 | 8.597 |
| Brechlyn Ffliw | 10.500 | 10.500 | 10.500 |
| Hawliadau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru | 31.805 | 0.000 | 0.000 |
| Dibrisiant | 8.959 | 11.322 | 12.756 |
| Codi Tâl Cyfreithiol a Risg | 7.101 | 7.101 | 7.101 |
| Uned Feddyginiaethau/TrAMS | 4.820 | 46.000 | 46.000 |
| Cyllid Dyfarniad Cyflog 2024/25 | 5.974 | 5.974 | 5.974 |
| Hawliadau Indemniad Meddygon Teulu Cynllun Rhwymedigaethau'r Dyfodol (FLS) a Chynllun Atebolrwyddau Presennol (ELS) | 12.658 | 8.343 | 8.500 |
| Archwilydd Meddygol | 5.193 | 5.193 | 5.193 |
| RecriwtioRhyngwladol | 2.146 | 2.146 | 2.146 |
| Treuliau Adleoli Cymru Gyfan | 1.150 | 1.150 | 1.150 |
| Ynni (Golchdai) | 1.000 | 1.000 | 1.000 |
| Banc Cydweithredol Cymru Gyfan | 0.180 | 0.180 | 0.180 |
| SMTL | 0.443 | 0.443 | 0.443 |
| Sganio er Diogelwch | 1.543 | 1.529 | 1.366 |
| Radiofferylliaeth | 0.729 | 1.752 | 1.752 |
| Trawsnewid ESR | 0.349 | 0.629 | 0.629 |
| Incwm Craidd Arall | 8.656 | 8.604 | 8.604 |
| **Cyfanswm Incwm a Anfonebwyd** | **555.292** | **564.113** | **565.706** |
| **Cytundeb Rhannu Risg WRP** | **36.056** | **37.726** | **39.169** |
| **Cyfanswm yr Incwm Craidd** | **791.000** | **801.491** | **804.527** |

Mae dyraniad Llywodraeth Cymru wedi'i gymryd o Ddyraniad Refeniw'r Bwrdd Iechyd ar gyfer 2025-26 (Tabl 3 – Brigdoriad Cyllid y Cydwasanaethau). Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, nid ydym wedi rhagdybio unrhyw amcangyfrif o incwm na gwariant ar gyfer dyfarniadau cyflog na'r codiad yswiriant gwladol yn ein cynllun ar y sail y bydd hyn, unwaith y cytunir arno, yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru. Ni chafodd cyllid dyfarniadau cyflog rheolaidd ar gyfer 2024-25 eu cynnwys fel rhan o ddyraniad 2025-26, felly mae amcangyfrifon o'r cyllid sydd i'w dderbyn ar gyfer y dyfarniadau cyflog hyn yn parhau i fod yn risg yn ein cynllun.

Tybiwyd y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i dalu'r taliadau blwydd-dal ychwanegol o 9.4% yn ganolog yn ystod 2025-26. Rydym wedi rhagdybio y bydd ein holl CLGau ac incwm trethadwy o fewn y GIG yn cael eu codi gan y codiad o 1.77% a ariennir i Sefydliadau GIG Cymru i dalu am bwysau costau chwyddiant a digidol yr ydym yn eu hwynebu ar draws ein gwasanaethau.

Darparwyd cyllid ar gyfer pwysau ynni yn y dyraniad cyllid ar gyfer 2024-25 a oedd yn cynnwys cyllid ar gyfer y safleoedd golchdai. Byddwn yn parhau i ailgodi'r costau hyn ar y Byrddau Iechyd perthnasol fel rhan o'r trefniadau ailgodi tâl am lieiniau, a rhagwelwyd yr incwm hwn yn ein cynllun ariannol.

Mae'r dyraniad cyllid a ddarperir ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol a gwasanaethau cymorth brechu yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol ar gyfer 2025-2028 ac mae'n cyd-fynd â'n strategaeth Cyfarpar Diogelu Personol:

- Bydd cyflenwadau Cyfarpar Diogelu Personol o storfeydd yn parhau i gael eu dosbarthu a chodir tâl amdanynt ar GIG Cymru.
- Bydd lefel bresennol y gefnogaeth i'r rhaglen frechu torfol yn parhau.
- Byddwn yn parhau i fynd i gostau gweithredol uwch ar gyfer storio, dosbarthu a rheoli'r cyflenwadau Cyfarpar Diogelu Personol.

Rydym yn rhagweld y byddwn yn parhau i fynd i gostau ychwanegol yn 2025-26 i gefnogi'r gweithgarwch parhaus uwchlaw llinellau sylfaen cyn-COVID. Ariennir hyn drwy arbedion PCGC a gyflawnir drwy arbedion effeithlonrwydd fel na fydd angen unrhyw ad-daliadau ychwanegol i GIG Cymru.

Wrth osod cyllidebau ar gyfer 2025-28 byddwn yn cynhyrchu mwy o arbedion effeithlonrwydd ac yn amsugno sawl pwysau cost ac yn gwneud buddsoddiadau mewn perthynas â thwf costau, twf galw/gwasanaethau a phwysau costau lleol fel y nodir yn ein cynlluniau cyflawni. Crynhoir y rhain yn y tabl isod, ynghyd â chrynodeb o sut y caiff y rhain eu hariannu.

| Pwysau | 2025/26 £m | 2026/27 £m | 2027/28 £m |
|---|---|---|---|
| Cyflogau | 7.023 | 0.300 | 0.300 |
| Gwariant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau | 0.646 | 0.100 | 0.100 |
| Twf o ran Galw/Gwasanaethau | 3.763 | 1.267 | 0.929 |
| Lleol/Gwasanaeth | 1.096 | 0.000 | 0.000 |
| **Cyfanswm y Pwysau** | **12.528** | **1.667** | **1.329** |
| **Ariennir Gan:** | | | |
| Cynhyrchu Incwm | 1.863 | 0.110 | 0.000 |
| Arbedion | 2.122 | 0.708 | 0.500 |
| Cyllid LlC | 7.646 | 0.849 | 0.829 |
| Buddsoddiad Cronfeydd Wrth Gefn | 0.887 | | |
| | **12.528** | **1.667** | **1.329** |
| **Pwysau Net** | **0.000** | **0.000** | **0.000** |

Mae nifer o'n blaenoriaethau, galwadau a phwysau canlyniadol ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 yn ddibynnol ar gynnydd gyda chynlluniau trawsnewid ym mlwyddyn 1 a chadarnhad o'r ffrydiau ariannu sydd ar gael. Mae'r materion datblygol hyn yn cynnwys y rhaglenni ar gyfer disodli ESR ac Oracle, cymeradwyaeth ac amserlen gweithredu TrAMS ac adolygiad parhaus o'n model Canolfan Ddosbarthu Genedlaethol a goblygiadau ar gyfer rheoli fflyd. Bydd y rhain yn dod yn gliriach yn ystod cyfnod y CTCI.

Gellir priodoli cynlluniau arbed a nodwyd i arbedion cyflog o'r adolygiad o swyddi wrth i ni fireinio strwythurau a gwell defnydd o dechnoleg gan gynnwys awtomeiddio a dyfodiad datrysiadau deallusrwydd artiffisial, ac arbedion nad ydynt yn gyflogau o ganlyniad i adolygiad o gyllidebau a chostau safleoedd. Mae'r gofyniad arbedion yn cyfateb i 2.36% o'n dyraniad craidd a ragwelir ar gyfer 2025-26.

Manylir ar ragdybiaethau cyllid Llywodraeth Cymru yn y tabl isod.

| Rhagdybiaethau Cyllid LlC | 2025/26 £m | 2026/27 £m | 2027/28 £m |
|---|---|---|---|
| **Rheolaidd** | | | |
| Cyllid Dyfarniad Cyflog 2024/25 | 5.974 | | |
| Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru | 0.112 | | |
| Cynghorydd Cydlynu Adeiladau | 0.093 | | |
| Prif Syrfëwr Adeiladu | 0.093 | | |
| Swyddi Ychwanegol Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol | 0.091 | | |
| Gwerth a Chynaliadwyedd Gwasanaethau Fferyllol Rheoli Meddyginiaethau | 0.114 | | |
| Cronfa Risg Cymru - Rhaglen MoNET | 0.080 | | |
| Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol (SMTL) Datgarboneiddio / Rheoliadau Caffael Newydd Cefnogaeth | 0.194 | | |
| RecriwtioRhyngwladol | 0.091 | | |
| Datblygiadau SLE | 0.105 | | |
| Datblygu a Digidoli Platfformau Dysgu ar draws y Sector Cyhoeddus ehangach | 0.046 | | |
| Agenda cynhyrchiant Gweithlu Meddygol Cenedlaethol | 0.073 | | |
| **Dyraniad Anghylchol/Yn Y Flwyddyn** | | | |
| Costau Storio - Cadw Cofnodion | 0.026 | | |
| Costau Cymorth Trawsnewid ESR | 0.349 | 0.649 | 0.629 |
| Costau Rhedeg Canolfan Locwm ac Ymchwil Defnyddwyr | 0.205 | 0.200 | 0.200 |
| **Cyfanswm** | **7.646** | **0.849** | **0.829** |

Mae Llywodraeth Cymru yn rhagdybio incwm i ariannu'r rhaglen waith trosiannol i symud i'r feddalwedd ESR newydd. Gwerthoedd dangosol yw'r rhain ar hyn o bryd, ac mae achos busnes yn cael ei baratoi a fydd yn cael ei effeithio gan y rôl y mae PCGC yn ei chyflawni wrth weithredu'r system newydd a gofynion cymorth gwasanaeth parhaus. Yn ogystal, bydd effaith ar y Gwasanaethau Cyflogaeth presennol a all amrywio yn dibynnu ar y datrysiad meddalwedd a ddewisir.

Mae'r pwysau a'r buddsoddiadau o £12.528 miliwn ar gyfer 2025-26 a nodwyd yn y cynllun ariannol yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau allweddol a nodir yn y cynlluniau gwasanaeth a gellir eu crynhoi fel:

| Crynodeb 2025/26 | Blaenoriaethau | Pwysau | Datblygu Gwasanaethau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cyllid Dyfarniad Tâl Rheolaidd 24/25 | | 5.974 | | 5.974 |
| Datgarboneiddio | 0.026 | - | - | 0.026 |
| Digidol | 0.399 | 0.108 | - | 0.507 |
| Colli Incwm | - | 0.417 | - | 0.417 |
| Chwyddiant nad yw'n gyflogau | - | 0.537 | - | 0.537 |
| Twf Gwasanaeth | 0.301 | 0.079 | 1.134 | 1.514 |
| Staffio - cynyddrannau/ newidiadau strwythur | - | 0.971 | - | 0.971 |
| Cydnerthedd Strwythur/ Cynllunio Olyniaeth | 0.529 | - | - | 0.529 |
| Piblinell Dalent | 0.084 | - | - | 0.084 |
| Newid trawsnewidiol | 1.331 | - | - | 1.331 |
| Cyllid rheolaidd heb ei gadarnhau | 0.091 | - | 0.273 | 0.364 |
| Cefnogaeth Gwerth a Chynaliadwyedd | 0.184 | - | - | 0.184 |
| Hyfforddi a datblygu | 0.058 | - | 0.030 | 0.088 |
| Hyfforddi a datblygu | 0.058 | - | 0.030 | 0.088 |
| **CYFANSWM £m** | **3.004** | **8.086** | **1.437** | **12.528** |

Mae risgiau nodedig eraill yn ein cynllun yn ymwneud â'r prosiect TrAMS a'r angen am fuddsoddiad anghylchol yn y cyfnodau trosiannol pan fydd y gwasanaeth yn cael ei sefydlu, pan fydd angen hyfforddi staff, a bod unedau'n cael eu defnyddio'n achrededig. Mae'r model ariannu ar gyfer TrAMS yn dal i gael ei ddatblygu gyda'n partneriaid. Ein rhagdybiaeth waith yw y bydd costau trosiannol yn cael eu hariannu o gyllidebau pan fydd gwasanaethau'n trosglwyddo i PCGC. Buddsoddi yn y maes blaenoriaeth hwn fydd yr alwad gyntaf ar unrhyw arbedion ychwanegol fel y cytunwyd yn flaenorol gan Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau i gefnogi gweledigaeth hirdymor y rhaglen.

Nid oes unrhyw ddosbarthiad wedi'i gynllunio wedi'i gynnwys yn ein CTCI, fodd bynnag. Os cyflawnir unrhyw arbedion ychwanegol bydd y rhain yn cael eu dychwelyd i gyrff unigol y GIG yn unol â'r fformiwla cyfraniad dyraniad a grynhoir yn y tabl isod:

| Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth: | % |
|---|---|
| Aneurin Bevan | 9.85 |
| Bae Abertawe | 8.80 |
| Betsi Cadwaladr | 11.98 |
| Caerdydd a'r Fro | 10.49 |
| Cwm Taf Morgannwg | 10.60 |
| Hywel Dda | 7.77 |
| Powys | 1.95 |
| Felindre | 1.17 |
| Ambiwlans Cymru | 1.28 |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | 0.87 |
| Llywodraeth Cymru | 35.25 |
| **Cyfanswm** | **100.00** |

## Cronfa Risg Cymru Gyfan

Mae Cronfa Risg Cymru Gyfan yn rheoli ad-daliadau a wneir gan GIG Cymru yn dilyn hawliadau llwyddiannus am iawndal. Mae Cronfa Risg Cymru (WRP) yn ad-dalu sefydliadau'r GIG am hawliadau a dalwyd ar ôl cymhwyso tâl-dros-ben o £25,000.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu dwy ffrwd ariannu benodol i PCGC mewn perthynas â Gwasanaeth Cronfa Risg Cymru:

i. **Terfyn Gwariant Adrannol (y TGA)** i gwrdd â chostau yn ystod y flwyddyn sy'n gysylltiedig â hawliadau wedi'u setlo sy'n codi o fewn Byrddau Iechyd (BI) ac Ymddiriedolaethau e.e. cyfandaliad neu orchymyn talu cyfnodol.

ii. **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (y GRF)** i gwrdd â chostau cyfrifo am rwymedigaethau hirdymor hawliadau h.y. y ddarpariaeth ar gyfer costau hawliadau yn y dyfodol.



Os nad yw'r dyraniad refeniw blynyddol o £109.435 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn ddigon i gwrdd â gwerth y gwariant a ragwelir yn ystod y flwyddyn (DEL), yna mae'r gwasanaeth yn ysgwyddo'r risg o unrhyw amrywiad i'r amcangyfrif a bydd y swm dros ben yn amodol ar gytundeb rhannu risg cytunedig ag aelod-sefydliadau GIG Cymru.

Rhagwelir y bydd cost esgeuluster clinigol yn parhau i godi dros y tair blynedd nesaf. Rhagwelir y bydd y cytundeb rhannu risg yn cael ei weithredu ym mhob blwyddyn yn ymwneud â thwf hawliadau craidd a'r gost gyfartalog gynyddol fesul achos. Mae'r rhagolwg wedi'i lunio ar sail gwerthoedd yr hawliadau cyfredol a'r dyddiadau setlo amcangyfrifedig yn ein cronfa ddata. Mae hyn yn sensitif i amrywiaeth o ffactorau a thybiaethau newidiol wrth i achosion symud ymlaen i setliad a chaiff ei adolygu'n fisol.

Mae'r tabl isod yn nodi sefyllfa rhagolwg lefel uchel 2025-2028 ym mis Rhagfyr 2024 ar gyfer gwariant blynyddol gyda'r alldro a ragwelir ar gyfer 2024-25:

| | 2024/25 £m | 2025/26 £m | 2026/27 £m | 2027/28 £m |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Cronfa Risg Cymru – Dyraniad craidd gan Lywodraeth Cymru | 109.435 | 109.435 | 109.435 | 109.435 |
| Incwm Cytundeb Rhannu Risg – Sefydliadau'r GIG sy'n Aelodau | 30.478 | 36.056 | 37.726 | 39.169 |
| **CYFANSWM INCWM CRONFA RISG CYMRU** | **139.913** | **145.491** | **147.161** | **148.604** |

Bydd y model rhannu risg yn cael ei gymhwyso i unrhyw wariant yn ystod y flwyddyn uwchlaw lefel dyraniad dangosol Llywodraeth Cymru. Mae'r dosraniad cyfran risg wedi'i ddiweddaru o 2025-26 fel y'i cymeradwywyd gan Bwyllgor Cronfa Risg Cymru ym mis Tachwedd. Mae'r dosraniadau newydd yn cynnwys mwy o ysgogwyr costau sy'n gysylltiedig â Rheoli Pryderon a Dysgu o Ddigwyddiadau. Mae'r dosraniadau dangosol rhwng aelodau sefydliadau'r GIG yn seiliedig ar y cytundeb rhannu risg wedi'i ddiweddaru i'w gweld yn y tabl canlynol:

| | 2024/25 | 2024/25 | 2025/26 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | RSA % | RSA £m | RSA % | RSA £m | RSA £m | RSA £m |
| Aneurin Bevan | 16.78% | 5.115 | 18.26% | 6.582 | 6.887 | 7.151 |
| Bae Abertawe | 15.25% | 4.649 | 15.28% | 5.510 | 5.766 | 5.986 |
| Betsi Cadwaladr | 19.22% | 5.857 | 19.41% | 6.999 | 7.323 | 7.603 |
| Caerdydd a'r Fro | 15.86% | 4.835 | 15.81% | 5.702 | 5.966 | 6.194 |
| Cwm Taf Morgannwg | 14.76% | 4.449 | 15.50% | 5.589 | 5.847 | 6.071 |
| Hywel Dda | 9.70% | 2.995 | 9.57% | 3.451 | 3.610 | 3.749 |
| Powys | 4.13% | 1.257 | 2.71% | 0.977 | 1.023 | 1.062 |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | 1.14% | 0.348 | 0.64% | 0.232 | 0.243 | 0.253 |
| Felindre | 1.15% | 0.352 | 0.85% | 0.306 | 0.320 | 0.332 |
| Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 2.01% | 0.612 | 1.97% | 0.709 | 0.741 | 0.770 |
| Iechyd a Gofal Digidol Cymru | 0.00% | - | 0.00% | - | - | - |
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru | 0.00% | - | 0.00% | - | - | - |
| **Cyfanswm** | **100%** | **30.478** | **100%** | **36.056** | **37.726** | **39.169** |

Mae'r ffigurau dangosol hyn ar hyn o bryd yn seiliedig ar wybodaeth am weithgarwch ysgogwyr cost 2023-24 wrth aros am ddata blwyddyn gyfan ar gyfer 2024-25 a fydd ar gael ym mis Medi 2025. Yn seiliedig ar ddata 2023-24, nid yw Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac AaGIC ar hyn o bryd yn ysgogi unrhyw ddosraniad o'r gyfran risg, ond gallai hyn newid os derbynnir unrhyw achosion newydd yn ystod cyfnod y CTCI.

Mae Pwyllgor Cronfa Risg Cymru am archwilio mwy o ffyrdd o gymell arferion da yn ogystal â'r newidiadau i'r ysgogwyr costau cyfran risg o 2025-26. Mae enghreifftiau o fentrau o'r fath yn cynnwys Hyfforddiant Obstetreg Aml Broffesiynol Ymarferol (PROMPT) i wella canlyniadau mamau ac yn fwy diweddar Hyfforddiant Argyfwng Newyddenedigol Aml-Broffesiynol (MoNET) sy'n cyd-fynd yn agos â PROMPT ar gyfer neonatoleg ac a dreialwyd yn 2024-25 ond sy'n gofyn am gytuno ar ffrydiau ariannu rheolaidd . Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod bod angen gwella ansawdd ac amseriad cyflwyniadau Dysgu o Ddigwyddiadau. Rydym yn parhau i weld balansau credydwyr uwch mawr gyda Sefydliadau lle nad ydym yn gallu ad-dalu hawliadau Cronfa Risg Cymru oherwydd tystiolaeth bod y dysgu gofynnol wedi'i dderbyn i safon foddhaol a chosbau lluosog wedi'u gosod yn 2024-25 oherwydd cyflwyniadau hwyr.

## Cynllun Asedau a Gwariant Cyfalaf

Mae ein cynllun yn nodi gofyniad buddsoddiad cyfalaf o £83.274 miliwn dros y cyfnod 5 mlynedd 2025-2030. Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant hwn yn ymwneud â thrawsnewidiad mawr y Gwasanaethau Fferylliaeth, gwydnwch argaeledd storfa warysau a'n strategaeth disodli cerbydau . Mae'r rhagamcanion sydd wedi'u cynnwys ar gyfer yr hybiau Gwasanaethau Fferylliaeth yn seiliedig ar ffigurau'r Achos Busnes Amlinellol, lle maent ar gael, neu gostau lefel uchel rhagarweiniol yr opsiynau posibl sy'n cael eu hystyried. Bydd y rhagamcanion manwl yn cael eu datblygu ymhellach wrth i'r achosion busnes symud ymlaen ymhellach.

Mae sawl prosiect datblygu gwasanaethau a strategol hefyd wedi'u nodi a fydd yn sicrhau parhad busnes ar gyfer y gwasanaethau a ddarparwn i GIG Cymru yn ogystal ac yn galluogi moderneiddio, awtomeiddio, gwydnwch a datgarboneiddio i hwyluso cyflawni nifer o flaenoriaethau allweddol yn ein CTCI ehangach. Mae elfen sylweddol o'r cynllun cyfalaf yn cysylltu â disodli a/neu ddatblygu meddalwedd gweithlu presennol a fydd yn dibynnu i raddau helaeth ar ymarferoldeb disodli meddalwedd ESR.

Mae'r prosiectau datblygu gwasanaeth yn fuddsoddiadau mawr na ellir eu cwmpasu gan ein dyraniad cyfalaf dewisol.

Wrth i'r prosiectau mawr a nodir uchod ddod yn weithredol, bydd gofynion ychwanegol am gyfalaf dewisol. Ni allwn fesur y rhain ar hyn o bryd, a bydd angen inni adolygu a thrafod ymhellach gyda Llywodraeth Cymru.

Mae'r cyllid cyfalaf sydd ei angen yn y dyfodol yn ystod cyfnod y cynllun (ac eithrio IFRS16) fel a ganlyn:

| | 2025/26 £m | 2026/27 £m | 2027/28 £m | 2028/29 £m | 2029/30 £m | Total £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dewisol | 0.800 | 0.800 | 0.800 | 0.800 | 0.800 | 4.000 |
| IP5 Dewisol | 0.250 | 0.250 | 0.250 | 0.250 | 0.250 | 1.250 |
| Golchdy Dewisol | 0.200 | 0.200 | 0.200 | 0.200 | 0.200 | 1.250 |
| **Cyfanswm Dewisol** | **1.250** | **1.250** | **1.250** | **1.250** | **1.250** | **6.250** |
| Prosiectau Datblygu Gwasanaethau | 34.305 | 21.655 | 3.341 | 14.253 | 3.470 | 77.024 |
| **Cyfanswm Gofyniad y Cyllid Cyfalaf** | **35.555** | **22.905** | **4.591** | **15.503** | **4.720** | **83.274** |

| | 2025/26 £m | 2026/27 £m | 2027/28 £m | 2028/29 £m | 2029/30 £m | Total £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Radiofferylliaeth | 5.227 | - | - | - | - | 5.227 |
| Gwasanaethau Technegol Fferylliaeth - De-ddwyrain | 7.333 | 14.667 | - | - | - | 22.000 |
| Gwasanaethau Technegol Fferylliaeth - De-orllewin a Gogledd | - | - | 0.312 | 7.938 | 2.750 | 11.000 |
| Storfa Ychwanegol Mewn Warysau | 12.324 | - | - | - | - | 12.324 |
| Rhaglen Amnewid Cerbydau | 2.460 | 2.392 | 0.807 | 2.610 | - | 8.269 |
| Amnewid Meddalwedd y Gweithlu | - | 3.100 | 0.200 | 3.000 | - | 6.300 |
| ToIP5 | 4.620 | - | - | - | - | 4.620 |
| Adnewyddu TG | 0.186 | 0.621 | 0.199 | 0.099 | 0.650 | 1.755 |
| Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan | 0.556 | 0.500 | 0.500 | - | 0.070 | 1.626 |
| Amnewid Asedau Golchdy Cymru Gyfan | 0.315 | - | 1.123 | - | - | 1.438 |
| Datgarboneiddio'r Golchdy | 0.847 | - | - | - | - | 0.847 |
| Moderneiddio/ Adnewyddu Warysau | 0.437 | - | 0.200 | - | - | 0.637 |
| Blychau Tymheredd a Reolir | - | - | - | 0.430 | - | 0.430 |
| Amnewid Meddalwedd | - | 0.275 | - | - | - | 0.275 |
| Offer Uned Feddyginiaethau | - | 0 | - | 0.176 | - | 0.176 |
| Trawsnewidiad Digidol Gwasanaethau Gofal Cleifion | - | 0.100 | - | - | - | 0.100 |
| **Cyfanswm** | **34.305** | **21.655** | **3.341** | **14.253** | **3.470** | **77.024** |

Mae buddsoddiad cyfalaf yn hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gwell a mwy effeithlon. Bydd pob cynllun cyfalaf yn sicrhau buddion refeniw o ran arbedion sy'n rhyddhau arian, osgoi costau, llai o allyriadau carbon, gwell ansawdd a/neu ddatblygiadau iechyd a diogelwch.

Yn ogystal â'r prosiectau cyfalaf trawsnewidiol, mae risg allweddol i'r CTCI yn ymwneud â llawer iawn o offer TG i staff gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd fel gliniaduron, y bydd angen inni eu newid fesul cam o ddiwedd 2024-25. Mae'r cyllid sydd ei angen ar gyfer y strategaeth amnewid cerbydau hefyd yn peri risg o ran costau cynnal a chadw a/neu les uwch a pharhad busnes os na ellir cymeradwyo cyllid ar gyfer cerbydau newydd yn rheolaidd.

Byddwn yn parhau i gynhyrchu achosion busnes ar gyfer prosiectau penodol mawr yn ogystal â pharhau i adolygu'r ffynonellau ariannu amgen posibl, er enghraifft Buddsoddi i Arbed. Byddai'r camau rheoli hyn yn lliniaru ond nid yn dileu effaith y ffaith nad oes mwy o gyllid cyfalaf ar gael.

Dylid nodi mai cyllid cyfyngedig sydd gennym ar gyfer dibrisiant a bydd angen cyllid ychwanegol nad yw'n arian parod gan Lywodraeth Cymru yn ychwanegol at y llinell sylfaen os caiff cyllid cyfalaf ei gymeradwyo. Tybir yn ein cynllun bod y cyllid cyfalaf Hawl i Ddefnyddio IFRS 16 gofynnol ar gael yn unol â'r gofynion ariannu rhagamcanol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru drwy gydol 2024-25 ac y bydd cyllid dibrisiant IFRS16 DEL ac AME hefyd yn cael ei ddarparu.






# Atodiad C – Ein Cynllun Pobl

Rydym wedi ymrwymo i alluogi ein pobl i deimlo eu bod wedi ymgysylltu, i fod yn gysylltiedig â'n pwrpas ac i rannu ynddo; i deimlo eu bod wedi'u cyfoethogi, eu grymuso a'u hysbrydoli; a theimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi fel eu bod yn cael eu galluogi i wneud gwahaniaeth i bobl Cymru. Rydym hefyd wedi ymrwymo i egwyddorion yr Economi Sylfaenol ac felly, mae ein hagenda ehangu mynediad yn canolbwyntio ar dyfu ein gweithlu yn y dyfodol o fewn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ledled Cymru. Ein nod yw gwneud PCGC yn lle gwych i weithio a chefnogi Iechyd a Lles ein staff yn unol â'r cynllun ar gyfer 'Cymru Iachach'.

O'r herwydd, erys ein saith blaenoriaeth strategol o fewn Pobl a Datblygu Sefydliadol (Pobl a DS) fel a ganlyn:

- Dylunio Sefydliadol
- Datblygu Sefydliadol
- Adnoddau
- Dadansoddeg Pobl
- Cysylltiadau Cyflogeion
- Y Gymraeg
- Rhagoriaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol

During 2024-25 we focused on several programmes of work that were established in 2023-24 to ensure that our people can be the best that they can be. Within each of our strategic priorities, we have aligned our planned work to the Ministerial priorities and wider programme of the Welsh Government. We will continue to build on this in 2025-26.

## Dylunio Sefydliadol

Yn ystod 2024-25 fe wnaethom barhau i groesawu egwyddorion gweithio ystwyth ac ystwythder rolau. I wneud hyn:

- Fe wnaethom ymchwilio a datblygu rhaglen lleoliad profiad tymor byr ar gyfer staff parhaol i "roi cynnig arni" a chyfrannu at waith adrannau amgen a/neu brofi tîm neu wasanaeth gwahanol a dysgu am y gwaith y maent yn ei wneud.
- Cyflwynwyd proses graffu gennym i roi elfennau di-dâl dyfarniad cyflog 2023-24 ar waith mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn yr Undebau Llafur er mwyn sicrhau bod pob Disgrifiad Swydd sy'n hŷn na thair blwydd oed yn cael ei adolygu gyda'r deiliaid swydd priodol.
- Fe wnaethom hefyd ddatblygu proses Adolygu Datblygiad Arfarnu Perfformiad newydd sy'n ategu'r ymagwedd at ystwythder rôl.
- Cyflwynwyd Gweithdrefn Gweithio Dramor gennym i alluogi staff i wneud cais iweithio dramor am gyfnod byr mewn amgylchiadau eithriadol.
- Buom hefyd yn ymgysylltu'n rhagweithiol â Gweithgor Ystwyth GIG Cymru Gyfan.



Fel sefydliad, rydym yn parhau i gofleidio egwyddorion ystwythder busnes ac, yn ystod 2025-26, byddwn felly’n canolbwyntio ar:

- Gweithio mewn partneriaeth ac ochr yn ochr â chydweithwyr y Bwrdd Iechyd/ Ymddiriedolaeth i weithredu ar y cyd yr adrannau o’r elfennau o ddyfarniad cyflog 2023-24 nad ydynt yn ymwneud â chyflogau a arweinir yn genedlaethol.
- Gweithio gyda’n hisadrannau a’n tîm Ystadau a Chyfleusterau i nodi cyfleoedd ychwanegol ar gyfer gweithio ystwyth.
- Parhau i addysgu ein staff am weithio ystwyth a’r ffordd orau y gallant nodi cyfleoedd i ddod ynghyd i gysylltu a chydweithio.
- Parhau i ymgysylltu â Gweithgor Ystwyth GIG Cymru Gyfan i sicrhau ein bod yn dysgu’n barhaus gan sefydliadau eraill y GIG ac yn ymgorffori arferion gorau yn ein hamgylcheddau gwaith.

## Datblygu Sefydliadol

Yn ystod 2024-25 fe wnaethom geisio alinio meysydd allweddol ein cynllun gweithredu Dyma Ein PCGC â blaenoriaethau sefydliadol ehangach. Nodau’r rhaglen hon yw:

1. Datblygu diwylliant cadarnhaol yn PCGC.
2. Ymgorffori ymagwedd gyfunol a thosturiol ar gyfer datblygu strategaeth arweinyddiaeth a phrosiectau cysylltiedig.
3. Hyrwyddo a chefnogi arweinyddiaeth gyfunol i alluogi PCGC i wneud y canlynol:
    a. Cefnogi Gweithlu Iach ac Ymgysylltiedig
    b. Galluogi staff i ddangos tosturi; i leisio barn; i wella’n barhaus; ac i ddysgu
    c. Datblygu cymhwysedd unigol a chyfunol priodol.
    d. Cydnabod gwahaniaethau ac anghenion unigol er mwyn cynyddu annibyniaeth, a chreu ymdeimlad cliriach o berthyn.
    e. Darparu gwasanaethau o ansawdd uchel a gwerth am arian.

Rydym wedi adnewyddu ein rhwydwaith Hyrwyddwyr Newid Diwylliant gydag aelodau ychwanegol sydd wedi elwa o raglen ddatblygu bwrpasol i’w galluogi i gefnogi gwreiddio’r rhaglen ac i fod yn llysgenhadon ar gyfer dulliau arwain tosturiol a chynhwysol. Mae’r Hyrwyddwyr Newid Diwylliant yn weithgar yn eu gwasanaethau, gan siarad ag uwch dimau arwain a chydweithwyr fel ei gilydd i roi’r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y rhaglen ac i glywed eu barn. Yn dilyn cyhoeddi data Arolwg Staff GIG Cymru 2023, mae cynllun gweithredu Dyma Ein PCGC wedi’i ymgorffori mewn Cynllun Gweithredu Diwylliant Cynhwysol newydd. Mae hwn yn amlinellu’r camau gweithredu sy’n gorgyffwrdd o’r arolwg staff, Adroddiad Safonol Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Cynllun Gweithredu LHDTC+, Fframwaith Codi Llais heb Ofn a gwaith i gynyddu Diogelwch Rhywiol.

Mae gwaith y rhaglen wedi canolbwyntio ar y meysydd canlynol yn ystod 2024-25:

- Nodi themâu o fewn data Arolwg Staff GIG Cymru.
- Cefnogi cychwyn a datblygu Cynllun Gweithredu Diwylliant Cynhwysol.
- Ymgorffori ymhellach y Fframwaith Gwerthoedd Ymddygiad ar draws safleoedd a gwasanaethau PCGC.
- Mae’r pencampwyr wedi bod yn seinfwrdd ar gyfer darnau newydd o waith fel Codi Llais heb Ofn, a darparu adnoddau a chyfleoedd i staff.





Yn ystod 2025-26 bydd y rhaglen hon yn canolbwyntio ar gyflawni Cynllun Gweithredu Diwylliant Cynhwysol PCGC sy'n amlinellu'r nodau canlynol:

- Hyrwyddo a Chefnogi Diwylliant Tosturiol a Chynhwysol.
- Gwella Ymgysylltu trwy ein hymagwedd at gydnabyddiaeth.
- Galluogi Diwylliant Codi Llais gyda dull i godi pryderon yn ddienw.
- Gwella dealltwriaeth o gyfleoedd ar gyfer gweithio hyblyg.
- Cefnogi amgylchedd gwaith iach.
- Cynyddu amrywiaeth yn ein rolau uwch.
- Mynd i'r afael â thangofnodi data demograffig er mwyn cefnogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn well.

### Cefnogi Gweithlu Iach ac Ymgysylltiedig

Cymerwyd camau breision dros y flwyddyn ddiwethaf yn natblygiad ein cynnigIechyd a Llesiant, gan gynnwys:

- Dechrau adolygiad o'n Fframwaith Iechyd a Llesiant ac ystyried Canllawiau Arferion Gorau GIG Cymru.
- Dechreuwyd darparu hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl trwy ein canolfan hyfforddi achrededig gan ein hyfforddwyr cymwys. Mae hyn wedi cynyddu nifer y Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yn PCGC, a'u datblygu i gefnogi cydweithwyr sydd angen cymorth.
- Cefnogaeth barhaus i staff trwy weithdai ymwybyddiaeth o lesiant ac ymwybyddiaeth o straen ac ychwanegu gweithdai Gwydnwch at ein harlwy.
- Cyflwynwyd a hyfforddwyd rhwydwaith o Gyfeillion Menopos i ddarparu cymorth ychwanegol i'r rhai sy'n profi symptomau menopos.
- Mwy o welededd o wasanaethau i'n staff anodd eu cyrraedd drwy sioeau teithiol iechyd a llesiant.

Yn 2025-26, byddwn yn hybu ein cefnogaeth i weithlu iach ac ymgysylltiol trwy sicrhau bod gan ein pobl lais a'n bod yn gwrando ar y llais hwnnw. Ar y cyd â gweithgareddau eraill o fewn 'Dyma Ein PCGC' a'r Cynllun Gweithredu Diwylliant Cynhwysol, byddwn yn darparu amgylchedd gwaith sy'n galluogi ein pobl i ffynnu. Gyda hyn mewn golwg, byddwn yn:

- Cyhoeddi fersiwn wedi'i adnewyddu o'n Fframwaith Iechyd a Lles.
- Cynyddu nifer y Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl o fewn y sefydliad.
- Cynyddu ein darpariaeth o sesiynau ymwybyddiaeth iechyd a llesiant i bob aelod o staff gyda sesiynau pwrpasol i reolwyr.
- Ymgorffori Canllaw Arferion Gorau Iechyd a Llesiant GIG Cymru drwy ein rhaglenni.



### Cydnabod Gwahaniaethau Unigol a'r Angen i Gynyddu Ymreolaeth, a Chreu Ymdeimlad cliriach o Berthyn

Mae gwreiddio amrywiaeth a chynhwysiant yn ein diwylliant a'n ffordd o feddwl, a grymuso ein pobl i ffynnu, yn rhan hanfodol o raglen 'Dyma ein PCGC'.

Ein nod parhaus yw datblygu rhaglen o weithgarwch sy'n cynnig cyfleoedd i grwpiau o fewn y boblogaeth sy'n cael eu tangynrychioli yn PCGC, gan godi proffil ein sefydliad yn y gymuned ehangach, a sicrhau bod pawb yn cael eu croesawu a'u hannog i ystyried gyrfa gyda ni.

Yn ystod 2024-25 rydym wedi:

- Parhau i roi Cynllun Gweithredu Amrywiaeth a Chynhwysiant ar waith sy'n canolbwyntio ar y meysydd canlynol:
  - Atyniad
  - Datblygiad
  - Ymgysylltu
  - Arferion Cyflogaeth
  - Arweinyddiaeth
- Recriwtio a hyfforddi 9 Llysgennad Amrywiaeth a Chynhwysiant o amrywiaeth o wahanol wasanaethau.
- Ymchwilio ymhellach i gyfleoedd ar gyfer rhwydweithiau staff.
- Dechrau gwaith ar ymgyrch ar gyfer cynhwysiant diogel fel bod cydweithwyr yn teimlo'n ddiogel i ofyn cwestiynau a chymryd rhan mewn sgyrsiau i gefnogi dysgu.
- Darparwyd dysgu mewn Recriwtio Cynhwysol, Rhagfarn Anymwybodol a Gwrth Hiliaeth.



### Yn 2025-26, byddwn yn:

- Datblygu ein rhwydweithiau gweithwyr ymhellach.
- Recriwtio a hyfforddi Llysgenhadon Amrywiaeth a Chynhwysiant ychwanegol.
- Parhau i sicrhau bod ein cyfleoedd dysgu a datblygu yn gynhwysol.
- Parhau a gwreiddio ymgyrch ar gyfer cynhwysiant diogel fel bod cydweithwyr yn teimlo'n ddiogel i ofyn cwestiynau a chymryd rhan mewn sgyrsiau i gefnogi dysgu.
- Symud o drefniadau ad hoc i gydbwysedd o ddysgu wedi'i amserlennu a dysgu â ffocws mewn amrywiaeth a chynhwysiant, trwy amrywiaeth o e-ddysgu a hyfforddiant amser real, ar-lein ac wyneb yn wyneb.
- Sefydlu system gyfeillio i arweinwyr ddysgu o brofiadau bywyd cydweithwyr.



### Datblygu Cymhwysedd Unigol a Chyfunol Priodol

Yn olaf, byddwn yn parhau i sicrhau bod gan ein pobl yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiad i gyflawni eu hanghenion a'u dyheadau unigol; yn ogystal â rhai y sefydliad.

### Yn ystod 2024-25 rydym wedi:

- Ymgysylltu â'r holl wasanaethau mewn perthynas â datblygu cynlluniau hyfforddi a datblygu'r broses ymhellach i gefnogi ymarfer dadansoddi anghenion hyfforddi blynyddol y sefydliad.
- Diweddaru'r Hyb Datblygu Pobl ar-lein i ddarparu mwy o gynigion datblygu amrywiol i staff.
- Mapio cynigion datblygu arweinyddiaeth i reolwyr pobl ar bob lefel yn y sefydliad.

I gefnogi hyn ymhellach, byddwn yn:

- Cyflwyno rhaglen Lleoliad Profiad Tymor Byr (STEP) i alluogi staff i ddysgu o feysydd eraill yn y sefydliad a chyfrannu atynt.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr Undebau Llafur ac eraill i gefnogi datblygiad sgiliau hanfodol gan gynnwys llythrennedd a chynhwysiant digidol.
- Cyflwyno ymagwedd newydd at hyfforddi a mentora sy'n cynnwys hyfforddi sgiliau ar gyfer rheolwyr, yn ogystal â chynnig mynediad i fentoriaid a hyfforddwyr.
- Defnyddio data o'n dadansoddiad o anghenion hyfforddi i adnewyddu strategaeth dysgu a datblygu PCGC .

## Adnoddau

Rydym yn parhau i gael ein herio gan gynigion cystadlu â sefydliadau yn y sector preifat a chyhoeddus am y doniau gorau, yn enwedig yn ein gwasanaethau proffesiynol. Mae nifer y swyddi gweigion yn y farchnad lafur heddiw yn parhau i olygu bod recriwtio yn mynd yn fwyfwy heriol ac rydym yn dal i fod mewn sefyllfa o farchnad yr ymgeiswyr.

Er mwyn parhau i wella ein Cynnig Gwerth Cyflogeion, yn 2024-25 buom yn gweithio gyda phob Is-adran a'n staff i ddeall ble roedd angen i ni wneud newidiadau a beth fyddai'n cael yr effaith fwyaf. Roedd hyn yn golygu ein bod yn:

- Cynyddu nifer y rheolwyr a fynychodd yr hyfforddiant recriwtio, a thrwy hynny sicrhau bod ein rheolwyr yn cael recriwtio a dethol yn iawn. Cyflwynwyd sesiynau hyfforddi yn rheolaidd drwy gydol 2024-25 gyda chyfanswm o 61 o reolwyr wedi derbyn hyfforddiant erbyn diwedd Chwarter 2.
- Canolbwyntiwyd ein sylw ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Amser i Benodi PCGC a buom yn gweithio gyda rheolwyr i leihau perfformiad adrannol, gan ein gweld yn symud o 88.3 diwrnod yn erbyn targed o 71 diwrnod yn gyffredinol i 63.3 diwrnod yn gyffredinol. Mae hyn wedi rhoi profiad llawer gwell i ymgeiswyr.
- Gwreiddio'r defnydd o'r safle pwrpasol "Gweithio i Ni" fel y gall staff gael mynediad hawdd at wybodaeth bwysig am weithio i PCGC.
- Mewn partneriaeth â gwefannau hysbysebu a phlatfformau swyddi ychwanegol gan gynnwys Gyrfa Cymru, DWP, cynghorau lleol, rhai prifysgolion a LinkedIn. Ers hynny mae Google Analytics wedi dangos cynnydd blynyddol o 836.44% (o 4,696 i 43,975) mewn ymweliadau safle â'n tudalen Gweithio i Ni. Fel rhan o'r dull hwn, derbyniodd PCGC dair gwaith yn fwy o ymgeiswyr, tair gwaith yn fwy o ymgeiswyr ar y rhestr fer a 2.8 yn fwy o bobl yn cael eu cyfweld, a phob rôl wedi'i llenwi.
- Canolbwyntiwyd ar ein brand allanol, gan sicrhau bod darpar ymgeiswyr yn deall pwy ydym ni a disgwyliadau'r rolau a hysbysebir. Roedd hyn yn cynnwys creu fideo Buddion PCGC a chanllaw fideo i ymgeiswyr yn rhoi cyngor ar sut i wneud cais.
- Creu brand safonol ar gyfryngau cymdeithasol i bob rheolwr recriwtio ei ddefnyddio ar LinkedIn. Yn bwysig ddigon, mae'r CTR%, "Click Through Rate" (lle mae pobl wedi ymestyn eu hymgysylltiad â hysbyseb a chlicio drwodd i dudalen gwefan swyddi gwag PCGC) ar 5.784% sy'n sylweddol uwch na chyfradd gyhoeddedig gyfartalog LinkedIn (mae ystadegau LinkedIn yn awgrymu mai dim ond 0.44-0.62 % yw CTR da.
- Llofnodwyd cyfamod y lluoedd arfog yn ffurfiol a derbyniwyd Gwobr Efydd y Lluoedd Arfog.




**Yn 2025-26 rydym yn bwriadu:**

- Archwilio, deall gyda'r bwriad o weithredu, swyddogaeth Cronfa Dalent ar TRAC fel rhan o'n strategaeth atyniad.
- Cynnal arolygon, grwpiau ffocws a chyfweliadau i gasglu adborth gan ein gweithwyr am eu canfyddiadau o PCGC. Bydd hyn yn cynnwys yr hyn sy'n dylanwadu ar eu penderfyniad i ymuno a/neu aros gyda'r sefydliad ac unrhyw strategaethau neu fuddion allweddol yr hoffent i PCGC eu hystyried fel rhan o'n cynnig cyflogaeth.
- Datblygu strategaeth gweithlu ystwyth a thymhorol, i ddeall ac arddangos y gallu i drosglwyddo sgiliau ar draws y sefydliad.



## Ehangu Mynediad

Mae PCGC wedi ymrwymo i'r agenda ehangu mynediad ac i sicrhau ein bod yn darparu cyfleoedd cyflogaeth a thwf i'r rhai yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Yn 2024-25 fe wnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:

- Parhau i feithrin sgiliau Cymraeg ein gweithlu parhaol i sicrhau ein bod yn gynrychioliadol o'r cymunedau yr ydym yn gweithio ynddynt.
- Datblygiad pellach o Rwydwaith Gyrfa Gynnar PCGC sy'n galluogi cydweithwyr o'n gwasanaethau amrywiol ar draws y sefydliad i gymryd rhan mewn hyrwyddo gyrfaoedd o fewn eu gwasanaethau a thu hwnt, ledled Cymru.
- Recriwtio Swyddog Datblygu Gyrfa a fydd yn cefnogi denu pobl o gymunedau amrywiol yn ogystal â datblygu staff newydd a phresennol i alluogi twf parhaus.
- Parhau i fynychu digwyddiadau Cymraeg gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol Cymru ym Mhontypridd i ymgysylltu â chymunedau Cymraeg eu hiaith a gwneud y cymunedau hynny'n ymwybodol o'r cyfleoedd gyrfa o fewn PCGC.

Yn 2025-26, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ein dull Ehangu Mynediad ymhellach, gan ganolbwyntio ar:

- Cynyddu nifer y staff sy'n ymuno â ni gyda nodweddion gwarchodedig.
- Parhau i feithrin sgiliau Cymraeg ein gweithlu parhaol i sicrhau ein bod yn gynrychioliadol o'r cymunedau yr ydym yn gweithio ynddynt.
- Datblygu mynediad i PCGC ymhellach drwy Lwybrau Mynediad Gyrfa gan ganolbwyntio'n benodol ar gynyddu ein llwybrau prentisiaeth ac archwilio cyfleoedd eraill fel interniaethau.
- Hyrwyddo ymhellach gyfleoedd trwy ddigwyddiadau Gyrfa mewn partneriaeth ag addysg a sefydliadau eraill gan gynnwys elusennau ac asiantaethau sy'n cefnogi mynediad i leoliadau gwaith cynhwysol.




## 4. Dadansoddeg Pobl

Mae dadansoddeg pobl yn ein galluogi i fesur ac adrodd ar gysyniadau gweithlu allweddol, megis perfformiad, llesiant, cynhyrchiant, arloesedd ac aliniad, yn ei dro yn galluogi penderfyniadau mwy effeithiol ar sail tystiolaeth i lywio ein cynlluniau cynllunio a moderneiddio a thrawsnewid yn y dyfodol.

Er mwyn cryfhau ymhellach y broses o wneud penderfyniadau a yrrir gan ddata a chynllunio gweithlu effeithiol, yn 2024-25 buom yn gweithio gyda phob Is-adran i gyflwyno sawl dangosfwrdd dadansoddol. Roedd hyn yn golygu ein bod yn:

- Creu microwefan Cynllunio'r Gweithlu sy'n dwyn ynghyd yr holl ddangosfyrddau Gwybodaeth Busnes Gweithlu perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys data sy'n ymwneud â phroffil oedran gweithlu PCGC, data demograffig cydraddoldeb ac amrywiaeth, symudiadau staff, data ymadawyr a gwybodaeth am y Gymraeg.
- Adolygu ein dulliau adrodd mewnol a darparu gwybodaeth amser real i'n harweinwyr a'n rheolwyr. Amlygwyd ein hadroddiadau wedi'u diweddaru yn benodol ym Mhwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau fel enghraifft wych o grynodeb gweithlu sefydliad.
- Adolygu sawl llif gwaith llaw-ddwys gan gynnwys ein Proses Cario Gwyliau Blynyddol Ymlaen/Prynu Gwyliau Blynyddol a'n Proses Credyd Cynyddrannol; cyflwyno datrysiad cymhwysiad Microsoft i gefnogi'r olaf.

**Yn 2025-26 rydym yn bwriadu :**

- Adolygu ein hymagwedd at wybodaeth busnes a datblygu dangosfyrddau greddfol pellach a fydd yn caniatáu i arweinwyr a rheolwyr gael mynediad hawdd at yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i arwain a rheoli eu timau.
- Creu set o fesurau gwaelodlin a dull o arolygu pwls ein gweithwyr i ddeall ein sefyllfa bresennol o ran ymgysylltu a chadw gweithwyr.
- Croesgyfeirio ein data presennol gyda ffynonellau eraill e.e. data TRAC i adolygu mannau hysbysebu mynychu a helpu i adeiladu mewnwelediad adrannol ar gyfer meysydd i’w gwella.




## Cysylltiadau Cyflogeion

Rydym yn parhau i weithio gyda’n rheolwyr pobl i sicrhau eu bod yn cymhwyso egwyddorion diwylliant cyfiawn a diwylliant sy’n dysgu ac yn canolbwyntio ar gyfiawnder adferol ac arweinyddiaeth dosturiol. Yn 2024-25 lansiwyd ein rhaglen waith Niwed i Weithwyr y Gellir ei Osgoi, ochr yn ochr â chydweithwyr o Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a defnyddio’r hyn a ddysgwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Roedd y dull hwn yn rhoi ein pobl wrth wraidd ein prosesau cysylltiadau gweithwyr. I’r perwyl hwn, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar berthnasoedd unigol a chyfunol yn y gweithle, gan weithio mewn partneriaeth â’n cydweithwyr yn yr Undebau Llafur. Yn benodol, yn ystod 2024-25 rydym wedi:

- Cynnal perthnasoedd cadarnhaol, seiliedig ar ymddiriedaeth, gyda’n cydweithwyr lleol yn yr Undebau Llafur yn Fforwm Partneriaeth Lleol PCGC, yn erbyn hinsawdd o gysylltiadau diwydiannol anodd.
- Cynnal perthynas gadarnhaol gyda Fforwm Partneriaeth Cymru.



- Parhau i gynnwys ein staff wrth ddatblygu polisïau lleol a chenedlaethol i sicrhau eu bod yn cymryd rhan ac yr ymgynghorir â hwy ar faterion sy’n effeithio arnynt yn y gwaith.
- Lansio ein rhaglen Niwed i Weithwyr y Gellir ei Osgoi yng Ngogledd a De Cymru a llunio cynllun prosiect mewnol i sicrhau bod ein holl staff yn deall ein hymagwedd at gysylltiadau gweithwyr a bod ein polisïau, llythyrau templed a digwyddiadau dysgu yn parhau i wrando ar lais ein gweithwyr ac yn ymateb i adborth.
- Cyflwyno mesurau sylfaenol i olrhain ein hachosion sy’n ymwneud â chysylltiadau gweithwyr er mwyn lleihau amserlenni cysylltiadau gweithwyr ac yn ei dro caniatáu ffocws ar ddatrysiadau anffurfiol i geisio osgoi niwed diangen i weithwyr.
- Cyflwyno modiwlau hyfforddi cynnil mewn perthynas â Disgyblaethau, Parch a Datrys a Gallu.
- Cynnal ymgyrch recriwtio lwyddiannus i benodi chwe Swyddog Ymchwilio Banc, sydd, trwy sicrhau bod gennym adnodd penodol, wedi lleihau amserlenni ymchwiliadau.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth i adolygu’r cymorth bugeiliol a ddarperir i’r rhai sy’n mynd drwy brosesau cysylltiadau gweithwyr a rhoi amser rheolaidd i’n cydweithwyr Undebau Llafur drafod gofynion cymorth eu haelodau.

**Yn 2025-26 rydym yn bwriadu :**

- Adolygu’n barhaus y Rhaglen waith Niwed i Weithwyr y Gellir ei Osgoi a gweithredu unrhyw ddysgu ychwanegol o lais ein gweithwyr.
- Adolygu ein pecynnau hyfforddi i sicrhau bod y dull Niwed i Weithwyr y Gellir ei Osgoi yn flaenllaw ac yn ganolog.
- Creu Gweithdrefnau Gweithredu Safonol a Thempledi i’r holl staff i gefnogi gweithwyr i deimlo wrth galon ein prosesau.

## Y Gymraeg

Yn ystod 2024-25 rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod staff yn cael y cyfle i ddysgu Cymraeg yn y gwaith ar gyfer eu datblygiad proffesiynol gan ein galluogi ni fel sefydliad i ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Roedd gennym ni 60 aelod o staff wedi cofrestru i ddysgu Cymraeg ar draws Lefelau 1 a 2. Ariennir y cyrsiau hyn gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol trwy Dysgu Cymraeg Morgannwg. Fe wnaethom hefyd gefnogi aelodau staff i ddysgu Cymraeg yn eu cymunedau, lle nad oedd dysgu yn y gweithle yn gyfleus neu lle nad oedd nifer y dysgwyr yn bodloni gofynion ariannu. Roedd gennym gyfanswm o 22 aelod o staff wedi cofrestru i ddysgu Cymraeg yn eu Cymunedau ar Lefelau 1, 2 a 3 ar draws Gwent, Morgannwg, Gogledd-orllewin Cymru a Chaerdydd.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i hyfforddiant Cymraeg wyneb yn wyneb yn fewnol ac wedi darparu hyfforddiant i gydweithwyr yn y Gwasanaeth Negesydd Iechyd yn Chwarter 3 a 4. Hefyd cynhaliwyd hyfforddiant wyneb yn wyneb pellach wedi'i dargedu yn Chwarter 4 ar gyfer Cyfrifon Taladwy, Gwasanaethau Recriwtio a Dyfarniadau Myfyrwyr.

Yn 2024-25 buom yn gweithio ar y cyd â Rheolwyr Recriwtio a Phartneriaid Busnes Pobl a Datblygu Sefydliadol i nodi rolau lle dylid ystyried sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl, er mwyn sicrhau bod gennym bob hyder y gallwn ddarparu ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rolau hyn yn cynnwys rolau rheng flaen, rolau dwyieithog a rolau sy'n wynebu cleifion. Mae'r rolau hyn wedi'u hamlinellu yn nrafft cyntaf ein Strategaeth Iaith Gymraeg, a fydd yn cael ei hadolygu'n barhaus i sicrhau bod yr holl rolau perthnasol yn cael eu nodi. Rydym wedi recriwtio'n llwyddiannus i sawl rôl lle cafodd sgiliau Cymraeg eu hysbysebu fel rhai Cymraeg Hanfodol neu Ddymunol gan gynnwys:

- Derbynnydd
- Paragyfreithiwr y Llys Gwarchod
- Swyddog Datblygu Gyrfa
- Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Parhawyd i weithio ochr yn ochr â'r tîm Gwerthuso Swyddi i sicrhau bod ein Swydd Ddisgrifiadau, Manylebau'r Person, a hysbysebion yn amlinellu'r gofynion Iaith Gymraeg priodol gan osod cyd-destun i'r rhesymeg y tu ôl i'r gofynion sgiliau a sicrhau ein bod yn defnyddio iaith gynhwysol. Bydd matrics i helpu rheolwyr i benderfynu a ddylai rôl fod yn Gymraeg yn Hanfodol neu'n Gymraeg yn Ddymunol gyda lefelau sgiliau penodol yn amrywio o 1 i 5 yn cael ei greu i gefnogi Rheolwyr Recriwtio. Bydd hefyd yn rhoi sicrwydd i'r Panel Rheoli Swyddi Gwag bod rheolwyr wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i sgiliau Cymraeg ar gyfer unrhyw rolau ychwanegol neu swyddi gweigion y maent yn recriwtio iddynt.



Yn 2024-25 fe wnaethom hefyd gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg mwy cadarn yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i sicrhau bod unrhyw newid polisi neu sefydliadol yn ystyried y Gymraeg a bod yr asesiad yn ystyrlon, wedi'i ystyried yn ofalus ac yn asesiad cadarn a fydd yn amlinellu sut y bydd unrhyw benderfyniad a wneir yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant o fewn y sefydliad. Defnyddiwyd hwn yn llwyddiannus mewn perthynas â chreu ein polisi Codi Llais heb Ofn a'n Rhaglen waith mewn perthynas â Niwed i Weithwyr y Gellir ei Osgoi.

Rydym yn parhau i ddarparu gwasanaeth CLG i nifer o randdeiliaid:

- Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
- Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- IGDC

Rydym wedi caffael y system Cof Cyfieithu Phrase ac ar hyn o bryd rydym yn treialu rhannu hyn gyda'n Rhanddeiliaid CLG. Yr adborth cychwynnol yw bod system a rennir yn galluogi rhanddeiliaid i ymateb i anghenion eu cwsmeriaid yn fwy effeithiol, effeithlon ac o fewn amserlenni tynn. Fel rhan o'r gwaith rydym yn ei wneud gyda'n rhanddeiliaid, rydym hefyd wedi trefnu hyfforddiant sicrhau ansawdd sy'n canolbwyntio'n benodol ar brawf ddarllen a golygu fel bod gwaith cyfieithu a wneir gan gyfieithu peirianyddol a Deallusrwydd Artiffisial yn sicr ac o ansawdd uchel. Yn Chwarter 4 fe ddechreuon ni weithio mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid ynghylch y cyfle i gaffael system Cof Cyfieithu Cymru gyfan.




Gan edrych ymlaen at 2025-26, bydd yr Uned Gymraeg yn:

- Cefnogi pob is-adran gyda chynllunio a datblygu gwasanaethau a phrosiectau gyda'r Gymraeg yn ganolog i bopeth a wnawn.
- Cynnal archwiliad dwy flynedd o gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg a'r cynnydd hyd yma.
- Darparu gwasanaethau cyfieithu prydlon o ansawdd uchel i'n gwasanaethau a'n prosiectau ar draws adrannau PCGC.
- Mynd i ddigwyddiadau ehangu mynediad ledled Cymru, gan gynnwys Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn rhanbarth Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ym mis Mai 2025 a'r Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst 2025 mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a sefydliadau cenedlaethol eraill.
- Caffael a defnyddio system Cof Cyfieithu Cymru gyfan.
- Cefnogi'r sefydliad y tu hwnt i feysydd gwasanaethau cyfieithu, a:
    - Ehangu ein cyswllt â staff a chreu rhwydwaith Cymraeg .
    - Cael rhaglen ehangach o ddigwyddiadau diwylliannol Cymreig.
    - Codi ymwybyddiaeth staff am eu dyletswyddau.
    - Ymestyn ein cyrhaeddiad i'r Hyfforddeion SLE.
    - Darparu mwy o gefnogaeth a chyfleoedd i staff sy'n dysgu Cymraeg neu sydd â diffyg hyder i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg.
    - Canolbwyntio ar staff sy'n sgorio Lefel 0 mewn sgiliau Cymraeg trwy gyflwyno dysgu ar-lein
    - Darparu dysgu Cymraeg yn fewnol lle gallwn gynnig rhaglen o ddysgu cynhwysfawr, cyson a hyblyg.

## Rhagoriaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol

Rhaid i'r Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol gael ei weld fel partner credadwy y gellir ymddiried ynddo i'n cwsmeriaid mewnol ac allanol. I fesur hyn, mae angen i ni wrando ar ein cwsmeriaid yn rheolaidd.

Fel gwasanaeth corfforaethol sy'n wynebu'n fewnol, rydym yn ymrwymo i roi pobl wrth galon ein gweithrediadau ac i gynnal ein gwerthoedd proffesiynol; rhoi ein cwsmeriaid yn gyntaf, gweithio ar y cyd, rhoi cyngor a barn arbenigol, bod yn effeithiol a bod yn arloesol yn ein hymagwedd.

Mae Pobl a Datblygu Sefydliadol wedi cael cydnabyddiaeth gan y Gymdeithas Rheoli Pobl Gofal Iechyd a Fforwm y DU ar Wasanaethau a Rennir drwy eu digwyddiadau gwobrwyo cenedlaethol am ein dull o gefnogi'r sefydliad drwy ein hymyriadau Pobl a Datblygu Sefydliadol a'n hymroddiad i ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Yn 2024-25 fe wnaethom gymryd rhan yn yr Achrediad Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer (CSE). Roedd PCGC yn llwyddiannus yn yr achrediad ac, felly, yn 2025-26 rydym yn bwriadu parhau i weithio tuag at fod yn weithle o ddewis trwy ymateb i adborth Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid a diwygio ein hymagwedd a'n prosesau fel y bo'n briodol, yn hytrach na gwneud cais am achrediad unigol fel Buddsoddwyr mewn Pobl, neu wobr 'The Best Companies'.






# Atodiad D - Mesurau Perfformiad Allweddol

## Monitro

Rydym yn parhau i gysoni ein mesurau perfformiad â'n Hamcanion Strategol ac rydym yn adrodd yn rheolaidd ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) is-adrannol i Bwyllgor y Bartneriaeth, Llywodraeth Cymru a'n cwsmeriaid drwy ein hadroddiadau perfformiad chwarterol. Mae ein mesurau perfformiad yn cael eu hadolygu fel rhan o broses yr Adolygiad Chwarterol i sicrhau eu bod yn berthnasol, yn uchelgeisiol ond yn gyraeddadwy ac yn fesuradwy.

Defnyddir cyfarfodydd Adolygu Chwarterol gydag isadrannau i asesu ein cynnydd yn erbyn amcanion is-adrannol y CTCI, mesurau perfformiad, cofrestrau risg a pherfformiad y gweithlu a pherfformiad ariannol.

Rydym hefyd yn cynhyrchu adroddiadau at ddiben craffu arnynt yn fisol gan yr Uwch Grŵp Arwain, bob deufis gan Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau ac yn chwarterol ar sail sefydliadol.

Rydym hefyd yn cynnal cyfarfodydd perfformiad chwe-misol ar sail 1:1 gyda'r sefydliadau iechyd gyda chynrychiolwyr yn cynnwys y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol a'r Cyfarwyddwr Cyllid.

